Partneriaeth Cydwasanaethau
GIG Cymru

# Adolygiad Blynyddol

2022-2023






GIG CYMRU NHS WALES | Partneriaeth Cydwasanaethau
Shared Services Partnership








# Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru Adolygiad Blynyddol 2022-23

© Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru 2023

Gellir atgynhyrchu testun y ddogfen hon yn rhad ac am ddim (ac eithrio logos adrannau neu asiantaethau) ar unrhyw ffurf neu mewn unrhyw gyfrwng, ar yr amod y ceir caniatâd i wneud hynny ac y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac mewn cyd-destun nad yw'n gamarweiniol.

Rhaid cydnabod mai deunydd dan hawlfraint Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru yw hwn a rhaid nodi teitl y ddogfen. Os mai deunydd trydydd parti ydyw, rhaid cael caniatâd gan y deiliad hawlfraint perthnasol.

# Cynnwys


**Cyflwyniad gan y Rheolwr Gyfarwyddwr a'r Cadeirydd** **4**

**Am PCGC** **5**
- Cipolwg 6
- Ein Gwasanaethau 7
- Map Strategaeth 2022-23 8

**Ein Cyflawniadau yn erbyn ein Nodau Cyffredinol** **10**
- Ein Cyflawniadau 11
- Cydnabod Staff 19

**Iechyd a Llesiant** **20**
- Grŵp Partneriaeth a Hyrwyddwyr Iechyd a Llesiant 22
- Cynhadledd Iechyd a Llesiant 22
- Cynlluniau Buddion Staff 23
- Llesiant Ariannol 23
- Gweithdai Llesiant 24
- Llesiant Corfforol 24
- Iechyd Meddwl 25
- Amrywiaeth a Chynhwysiant 26

**Perfformiad** **27**
- Dangosyddion Perfformiad Allweddol 28
- Perfformiad Ariannol 32
- Y Fframwaith Llywodraethu 36
- Iechyd a Diogelwch 37
- Iechyd a Diogelwch yn ystod COVID-19 39
- Y Gymraeg 40
- Llywodraethu Gwybodaeth 42
- Cyfathrebu 43

**Datblygu Cynaliadwy** **44**
- Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 45
- Egwyddor Datblygu Cynaliadwy 46
- Perfformiad Cynaliadwy 48
- Cyflogaeth Foesegol mewn Cadwyni Cyflenwi a Chaethwasiaeth Fodern 50

**Data Pobl** **51**

**Rhagolwg** **56**

# Cyflwyniad gan y Cadeirydd a´r Rheolwr Gyfarwyddwr

***Croeso i Adolygiad Blynyddol Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru (PCGC) 2022-23. Dyma'n 12fed Adolygiad Blynyddol ac, fel mewn blynyddoedd blaenorol, mae'n dangos sut rydym yn gwella ein gwasanaethau yn barhaus er mwyn diwallu anghenion ein partneriaid a'n cwsmeriaid, ynghyd â'n hymrwymiad parhaus i ychwanegu gwerth trwy weithio mewn partneriaeth, arloesi a rhagoriaeth.***

Yn ystod 2022-23 rydym wedi parhau i dyfu o ran maint a chymhlethdod. Cyfanswm ein gwariant refeniw ar gyfer y flwyddyn oedd £778m, o'i gymharu â llai na £50m pan gawsom ein sefydlu gyntaf. Bellach mae gennym fwy na 5,500 o staff, a'r rheswm pennaf am hyn yn y cyfnod diweddar yw'r cynllun Un Cyflogwr Arweiniol a gynhaliwyd gennym. Mae'r amrywiaeth o wasanaethau a ddarparwn yn parhau i gynyddu ac yn 2022-23 gwelwyd blwyddyn lawn gyntaf gweithredu'r pum golchdy presennol ar draws Cymru, a datblygiad parhaus y rhaglen Trawsnewid Mynediad at Feddyginiaethau, sy'n dechrau sicrhau arbedion sylweddol ar draws GIG Cymru.

Mae lefelau gweithgarwch yn parhau i gynyddu, yn enwedig mewn meysydd fel Cyfrifon Taladwy, Recriwtio a Chyflogres. Mae hyn wedi arwain at bwysau ar staff a systemau ar rai adegau yn ystod y flwyddyn, ond buom yn gweithio gyda'n partneriaid yn y GIG i symleiddio a diwygio gweithdrefnau lle bo'n briodol fel ein bod yn gweithredu'n fwy effeithlon ac ymatebol.

O ganlyniad i oresgyniad Wcráin ym mis Chwefror 2022 bu'r marchnadoedd ynni'n hynod ansefydlog a thrwy ein Grŵp Rheoli Risg Prisiau Ynni (sydd bellach wedi'i ailenwi´n Grŵp Ynni Cymru) llwyddwyd i liniaru effeithiau gwaethaf y cynnydd mewn prisiau drwy brynu bwndeli ynni ymlaen llaw. Rydym yn gweithio'n galed i leihau ein hôl troed carbon ac mae gennym dros 30 o gerbydau trydan yn ein fflyd Gwasanaethau Negesydd Iechyd ac mae pwyntiau gwefru ar gael i holl staff y GIG ar y mwyafrif o'n safleoedd. Rydym hefyd yn parhau i gefnogi'r broses adfer o'r pandemig trwy chwarae rhan allweddol mewn darparu'r rhaglenni brechiadau atgyfnerthu.

Rydym ni'n gobeithio y byddwch yn mwynhau darllen am ein cyflawniadau yn yr Adolygiad Blynyddol hwn ac edrychwn ymlaen at barhau i gwrdd a rhagori ar ddisgwyliadau ein rhanddeiliaid ar draws Cymru yn ystod 2023/24.



***Neil Frow,***

*Rheolwr Gyfarwyddwr PCGC*



***Tracy Myhill,***

*Cadeirydd*

# Am PCGC



# Cipolwg

## 5,493

O aelodau staff

Ar hyn o bryd rydym yn gweithredu o 16 Adeilad

## £778m

Cyllideb Refeniw

Rydym yn parhau i ailfuddsoddi arbedion er budd GIG Cymru

## £172m

o fuddion dylanwad proffesiynol

## 95%

o holl wariant GIG Cymru ei brosesu drwy systemau a phrosesau PCGC







# Ein Gwasanaethau

## Sicrhau Gwerth, Arloesedd a Rhagoriaeth drwy Bartneriaeth

Trwy gyfrwng partneriaeth, mae Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru (PCGC) yn darparu ystod eang o wasanaethau proffesiynol, technegol, a gweinyddol o ansawdd uchel i GIG Cymru, gan weithio gyda gwasanaethau cyhoeddus ehangach, gan gynnwys Llywodraeth Cymru. Rydym yn rhan annatod o deulu GIG Cymru, yn cefnogi darparu gwasanaethau i staff a chleifion Byrddau Iechyd, Ymddiriedolaethau ac Awdurdodau Iechyd Arbennig yng Nghymru. Rydym hefyd yn darparu amrywiaeth o wasanaethau i ofal sylfaenol; practisiau meddygon teulu, deintyddion, optegwyr a fferyllfeydd cymunedol.

Gwasanaethau Archwilio a Sicrwydd

Gwasanaethau Golchdy

Gwasanaethau Cyllid a Chorfforaethol

Cyfrifon Taladwy

Cyflogwr Arweiniol ar gyfer hyfforddeion meddygol, deintyddol a fferylliaeth

Cynllunio, Perfformiad a Gwybodeg

Gwasanaeth Atal Twyll Cymru

Gwasanaethau Cyfreithiol a Risg

Pobl a Datblygu Sefydliadol

Tîm Canolog e-Fusnes

Archwilydd Meddygo

Deunyddiau Llawfeddygol Labordy Prof

Datrysiadau'r Gweithlu Digido

Gwasanaethau Gofal Sylfaeno

Aberthu Cyflog

Gwasanaethau Cyflogaeth

Caffael a Gwasanaethau'r Gadwyn Gyflenwi

Gwasanaethau Dyfarniadau Myfyrwyr

e-Alluogi

Gwasanaethau Technegol Fferylliaeth

Cronfa Risg Cymru

Yr Academi Gyllid (wedi'i letya)

Gwasanaethau Ystadau Arbenigol

Cynllun Cymorth Gwaed Heintiedig Cymru

Y Gwasanaeth Negesydd Iechyd

# Map Strategaeth 2022-23

***Yn ystod mis Mawrth 2023, diweddarwyd ein Map Strategaeth gennym yn dilyn adolygiad o'n Gwerthoedd a'n Hamcanion gyda Phwyllgor y Bartneriaeth Cydwasanaethau. Fodd bynnag, at ddiben yr Adolygiad Blynyddol hwn, rydym yn adrodd yn erbyn ein nodau fel y cawsant eu nodi yn ystod y cyfnod adrodd 2022-23, y paratowyd y Map Strategaeth hwn ar ei gyfer.***

## Ein Gwerthoedd



***Gwrando a Dysgu***
Ystyried yn barhaus a gwella ansawdd ac effeithiolrwydd popeth a wnawn.



***Cymryd Cyfrifoldeb***
am benderfyniadau dewr a thosturiol a gwneud i'r pethau iawn ddigwydd.



***Gweithio gyda'n gilydd***
Gyda chydweithwyr, cwsmeriaid a chyflenwyr.



***Arloesi***
Bod yn ddewr a chreadigol trwy welliant parhaus.

## Ein Nodau Strategol

### Gwerth am Arian

- Sefydliad hynod effeithlon ac effeithiol.
- Cyflawni arbedion mewn termau real ac ansawdd gwasanaeth Buddion mewn partneriaeth â'n cwsmeriaid.
- Mesur gwerth o ran ansawdd, budd economaidd-gymdeithasol ac nid o ran cost yn unig.

### Datblygu Gwasanaethau

- Ehangu ystod y gwasanaethau o ansawdd uchel a ddarperir i GIG Cymru a sector cyhoeddus Cymru.
- Addasu a newid ein prosesau a'n systemau i gefnogi'r economi sylfaenol yng Nghymru.

### Rhagoriaeth

- Sefydliad sy'n rhoi'r cwsmer yn gyntaf ac sy'n rhagori o ran ei phrosesau.
- Canolbwyntio ar wella gwasanaethau yn barhaus, awtomeiddio a defnyddio technoleg ddigidol.
- Yn arwain y ffordd wrth fabwysiadu ffyrdd newydd o weithio i fynd i'r afael â thargedau newid hinsawdd a datgarboneiddio.

### Ein Pobl

- Gweithlu sydd â'r sgiliau priodol ac sy'n gynhyrchiol, ymroddgar ac iach.
- Ymgorffori amrywiaeth a chynhwysiant yn niwylliant a gweithredoedd PCGC.
- Annog defnyddio'r Gymraeg yn ein swyddi a'n gweithleoedd, gan gefnogi staff i wella lefel eu sgiliau.

### Y Cwsmer a Phartneriaid

- Diwylliant agored a thryloyw sy'n canolbwyntio ar y cwsmer ac sy'n cynorthwyo i ddarparu gwasanaethau o ansawdd uchel.

# Ein Nodau Cyffredinol

1. Byddwn yn hyrwyddo **cysondeb gwasanaeth** ledled Cymru drwy ymgysylltu â'n partneriaid tra'n parchu anghenion lleol a gofynion rhanbarthol.

2. Byddwn yn **estyn cwmpas ein gwasanaethau, gan groesawu cynaliadwyedd,** o fewn GIG Cymru ac i'r sector cyhoeddus ehangach er mwyn ysgogi gwerth am arian, dull gweithredu cyson ac arloesedd a fydd o fudd i bobl Cymru.

3. Byddwn yn parhau i ychwanegu gwerth drwy **arloesi, safoni a thrawsnewid** ein modelau darparu gwasanaethau i gyflawni'r nodau llesiant a manteision gofal iechyd darbodus sy'n seiliedig ar werthoedd.

4. Byddwn yn **gyflogwr delfrydol** ar gyfer cenedlaethau heddiw a chenedlaethau'r dyfodol drwy ddenu, hyfforddi a chadw gweithlu medrus a gwydn iawn sy'n cael ei ddatblygu i gyflawni hyd eithaf ei allu ac sy'n gallu gweithio yn Gymraeg ac yn Saesneg.

5. Byddwn yn cynnal **cynllun ariannol cytbwys** gan sicrhau arbedion effeithlonrwydd parhaus, arbedion uniongyrchol ac anuniongyrchol ac ail-fuddsoddi punt Cymru yn ôl yn yr economi.

6. Byddwn yn darparu **gwasanaeth cwsmeriaid rhagorol** gan sicrhau bod ein gwasanaethau yn sicrhau'r effeithlonrwydd, yr effeithiolrwydd a'r gwerth gorau am arian, drwy arweinyddiaeth system a dull 'Unwaith i Gymru'.

7. Byddwn yn **gweithio mewn partneriaeth** i ddarparu gwasanaethau cydnerth a fydd yn helpu GIG Cymru i adfer ar ôl heriau COVID-19, arwain at Gymru iachach a chefnogi Gofal Sylfaenol cynaliadwy.

8. Byddwn yn cefnogi GIG Cymru i **ymateb i'w heriau** drwy fod yn gatalydd ar gyfer dysgu gwersi a rhannu arfer da. Nodi cyfleoedd pellach i ddarparu gwasanaethau o ansawdd uchel.



# Ein Cyflawniadau yn erbyn ein Nodau Cyffredinol


















**Byddwn yn hyrwyddo cysondeb gwasanaeth ar draws Cymru drwy ymgysylltu â'n partneriaid, gan barchu ar yr un pryd anghenion lleol a gofynion rhanbarthol.**

- Ehangwyd mynediad at gyfleoedd gwaith drwy ymgysylltu a chydweithio â'r bobl gywir, er mwyn rhoi cefnogaeth gadarnhaol i'r cymunedau rydym yn gweithredu ynddynt.
- Datblygwyd dull cyson o gynllunio a chyflawni gwaith archwilio sy'n dangos cydymffurfedd â Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus, wedi'i ddilysu gan ganlyniad cadarnhaol iawn yr Asesiad Ansawdd Allanol (a gynhaliwyd gan CIPFA ym mis Mawrth 2023).
- Cynhaliwyd digwyddiad ymgysylltu gyda'n Pwyllgor Partneriaeth Cydwasanaethau a'r Uwch Dîm Arwain i wella dealltwriaeth o'r hyn mae ein partneriaid yn ei ofyn gan ein gwasanaethau a'n sefydliad.
- Llwyddodd y Rhaglen Moderneiddio Recriwtio, a oedd yn canolbwyntio ar themâu Proses, Addysg a Thechnoleg, i wella amser cyflogi staff yn GIG Cymru a gwelwyd cynnydd o 48% mewn gweithgarwch. Mewn sesiynau gyda 1,800+ o randdeiliaid cyflwynwyd arbedion effeithlonrwydd prosesau a Datrysiad Gwirio ID Digidol i wella taith y cwsmer.
- Gyda chydweithrediad rhanddeiliaid, aeth y Tîm Nawdd Gwasanaethau Cyflogaeth ati i sefydlu Grŵp Cymru Gyfan oedd yn cefnogi Practisiau Meddygon Teulu i gofrestru â'r Swyddfa Gartref. Roedd y datrysiad hefyd yn sicrhau bod modd i Feddygon Teulu dan Hyfforddiant ddod i wybod am bractisiau trwyddedig a swyddi gwag, ac yn trefnu ad-daliad o Ffioedd y Swyddfa Gartref i Bractisiau Meddygon Teulu.



**Byddwn yn ehangu cwmpas ein gwasanaethau, gan groesawu cynaliadwyedd, o fewn GIG Cymru ac yn y sector cyhoeddus ehangach er mwyn sicrhau gwerth am arian, dull gweithredu cyson ac arloesi a fydd o fudd i boblogaeth Cymru.**

- Sefydlwyd llwybr cymodi sy'n galluogi Byrddau Iechyd i ddilysu taliadau i bractisiau meddygon teulu o dan y cynllun capasiti ychwanegol, gan osgoi dyblygu prosesau a chan adlewyrchu sefyllfa´r gweithlu Gofal Sylfaenol yn gywir.
- Enillodd y Labordy Profi Dyfeisiau Llawfeddygol (SMTL) achrediad ISO 17025 UKAS am wasanaethau profi Hosanau, Rhwymynnau a Menig o'u Labordy IP-5 newydd.
- Yn 2022/23 cwblhaodd y Labordy Profi Dyfeisiau Llawfeddygol 201 o brosiectau profi, oedd yn cynnwys 643 o Adroddiadau Prawf a phrofion ar 3326 o gynhyrchion, gan gynnwys nifer o Gontractau Cymru Gyfan Gwasanaethau Caffael PCGC (Dillad Cywasgu Lymffoedema, Stribedi Monitro pH Sugno Gastrig Enteral).
- Cadarnhaodd y Gwasanaethau Ystadau Arbenigol fod datblygu unedau diheintio modiwlaidd sero net i'w defnyddio ar draws GIG Cymru yn gynaliadwy o safbwynt technegol, ariannol ac amgylcheddol.
- Roedd cyflwyno Contract Glanedyddion Cymru Gyfan yn cynnwys cynhyrchion sy'n caniatáu defnyddio llai o ddŵr ac yn sicrhau gwell cynaliadwyedd a gwerth am arian yng ngwaith pob un o'n golchdai.
- Mae gweithredu SupplyX yn llwyddiannus mewn meysydd fel gofal clwyfau, gorchuddion cymunedol a labordai cathetr wedi lleihau daliadau stoc a gwastraff cynnyrch, a hefyd wedi gwneud y broses archebu stoc yn fwy effeithlon a dibynadwy. Mae'r cynhyrchion cywir, sydd ar gael ar yr adeg gywir, yn y nifer cywir, o fudd i bobl Cymru.
- Datblygwyd technegau lled-awtomataidd i weithgynhyrchu meddyginiaethau er mwyn lleihau costau meddyginiaethau, gwella diogelwch a sicrhau gostyngiad o 70% mewn gwastraff plastig untro.



**Byddwn yn parhau i ychwanegu gwerth drwy arloesi, safoni a thrawsnewid ein modelau darparu gwasanaeth i gyflawni amcanion a buddion llesiant gofal iechyd darbodussy’n seiliedig ar werth.**



- Lansiwyd y Strategaeth Ddigidol sy’n pennu’r cyfeiriad ar gyfer darparu gwasanaethau digidol yn y dyfodol, y dull a’r fethodoleg y byddwn yn eu mabwysiadu a’r canlyniadau y ceisiwn eu cyflawni. Ei nod yw gwneud y buddsoddiad digidol gorau posibl trwy sicrhau ein bod yn rhoi datrysiadau ar waith sy’n canolbwyntio ar y cwsmer er mwyn darparu gwerth a gwella profiad defnyddwyr.

- Mabwysiadu arferion BS EN 14065 (Proses Golchi Tecstilau a Rheoli Biohalogi) i sicrhau llieiniau glân diogel i’n cwsmeriaid ar draws ein Gwasanaethau Golchdy.

- Profi Dyfeisiau Llawfeddygol Cymerodd y Labordy (SMTL) ran mewn prosiect Banc y Byd i ehangu´r gwaith o gynhyrchu dyfeisiau meddygol sylfaenol a chyfarpar diogelu personol ar draws y byd. Cynhaliodd SMTL sesiynau hyfforddi ar brofi dyfeisiau meddygol i nifer o labordai oedd yn cymryd rhan o Wlad yr Iorddonen, India a Fietnam.

- Mewndiwbio Brys Prosiect Datblygu gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a’r Fro Datblygwyd Meddyginiaethau Arbennig a dulliau gweithgynhyrchu newydd ar gyfer mewndiwbio brys a therapïau canser er mwyn darparu meddyginiaethau safonol.

- O ganlyniad i’r system Gwirio ID a gyflwynwyd ym mis Medi 2022 gall ymgeisydd mewnol neu allanol llwyddiannus GIG Cymru, sydd â phasbort cyfredol y DU neu Iwerddon, gwblhau gwiriad electronig ar-lein cyn dechrau eu swydd, o’u gliniadur neu eu ffôn symudol heb fod angen cyfarfod wyneb yn wyneb.

- Datblygodd y Gwasanaethau Archwilio a Sicrwydd ddatrysiad technegol mewnol i ddisodli’r system papurau gwaith archwilio electronig.



**Byddwn yn gyflogwr o ddewis heddiw ac i genedlaethau'r dyfodol drwy ddenu, hyfforddi a chadw gweithlu gwydn a medrus iawn, sydd wedi eu datblygu i gyrraedd hyd eithaf eu gallu ac sy'n gallu gweithio drwy'r Gymraeg a'r Saesneg.**



- Adnewyddwyd ein Gwerthoedd Craidd a datblygwyd Fframwaith Gwerthoedd Ymddygiad ar y cyd â Hyrwyddwyr Newid Diwylliant gan groesawu adborth gan gydweithwyr.
- Cydweithiwyd â staff i ddatblygu dull ystwyth o weithio er mwyn denu a chadw gweithlu amrywiol, gan fuddsoddi mewn swyddi newydd sy'n cefnogi ehangu mynediad ac amrywiaeth a chynhwysiant.
- Darparwyd rhwydweithiau staff a chyfleoedd i glywed llais y gweithwyr trwy'r Grŵp Partneriaeth Iechyd a Llesiant, 'Dyma Ein PCGC', Grŵp Hyrwyddwyr Newid Diwylliant, Caffi Menopôs, Grŵp LHDTCRhA+ Balch a mwy.
- Comisiynwyd a chyflawnwyd y Rhaglen Recriwtio Rhyngwladol Cymru Gyfan.
- Gwelwyd cynnydd o 24% mewn archebion i'r Cynllun Cerbydau Prydles Staff (92% o gerbydau), cynnydd o 31% mewn archebion i'r Cynllun Electroneg Cartref a chynnydd o 217% mewn archebion i'r Cynllun Beicio i'r Gwaith.
- Fe'n cydnabuwyd yn sefydliad ymrwymedig i fod yn Hyderus o ran Anabledd gyda chynlluniau i weithio tuag at statws Cyflogwr Hyderus o ran Anabledd ac Arweinydd Hyderus o ran Anabledd.
- Cyhaliwyd Cynhadledd Flynyddol Iechyd a Llesiant a Digwyddiadau Gwobrau Cydnabod Staff yn rhithwir, oedd yn hwyluso´r ffordd i staff ei mynychu.
- Mae'r Cynllun SymleiddioRecriwtio Myfyrwyr yn parhau i baru myfyrwyr Nyrsio, Bydwragedd, Cymdeithion Meddygol ac Ymarferwyr Adrannau Llawdriniaethau â swyddi ar draws GIG Cymru.



**Byddwn yn cynnal cynllun ariannol cytbwys a hynny wrth barhau i sicrhau arbedion effeithlonrwydd, arbedion uniongyrchol ac anuniongyrchol ac  ailfuddsoddi'r bunt.**



- Adroddodd PCGC sefyllfa ariannol gytbwys ar gyfer 2022-23, a chyflawnwyd yr holl dargedau ariannol.
- Cynyddodd y Cynllun Ceir Aberthu Cyflog o 2,531 o geir ym mis Ebrill 2022, i 3,113 o geir ym mis Ebrill 2023 (cynnydd o 23%) gan greu o leiaf £2m mewn arbedion a aeth yn ôl i GIG Cymru ar gyfer y cyfnod hwnnw.
- Cynhyrchodd Labordy Profi Dyfeisiau Llawfeddygol £750k o refeniw masnachol allanol yn 2022-23.
- Prosesodd y gwasanaeth Cyfrifon Taladwy 2.32 miliwn o anfonebau yn ystod 2022/23 sef cynnydd o 34.1% o'i gymharu â 2020/21. Cyflawnwyd hyn heb gynnydd sylweddol mewn adnoddau a chan gadw at bob DPA. Yn ychwanegol at hynny osgowyd £7.2 miliwn o daliadau dyblyg a chafwyd arbedion arian parod o £752k trwy ad-daliadau taliadau cynnar o'r Rhaglen Cyflenwyr â Blaenoriaeth ac adennill credydau.
- Parhaodd Gwasanaethau'r Golchdy i ddatblygu o fewn ei fodd presennol cyn buddsoddi, gan sicrhau'r gwasanaeth gorau i'n cwsmeriaid. Rydym yn defnyddio busnesau yng Nghymru, lle bynnag y bo modd, gan gynnal ymarferion meincnodi gyda phartneriaid presennol ac allanol.
- Mae cyflwyno rhaglenni a setiau llaw modern SupplyX i reoli stocrestrau yn lle technoleg Casglu Data Awtomatig sy'n heneiddio, tra'n adolygu'r daliadau stoc mwyaf addas, wedi lleihau gwastraff cynnyrch a'r risg o stoc darfodedig ar draws sawl ardal glinigol a chleifion o'r Gogledd i'r De ac o'r Dwyrain i'r Gorllewin.
- Prosesodd Cyfrifon Taladwy 2.32m o anfonebau yn ystod 2022-23, sef cynnydd o 34% o'i gymharu â 2020-21. Ar ben hynny, osgowyd £7.2 miliwn o daliadau dyblyg, a sicrhawyd arbedion arian parod o £752k trwy ad-daliadau taliadau cynnar o'r Rhaglen Cyflenwyr â Blaenoriaeth ac adennill credydau.



**Byddwn yn darparu gwasanaeth gwych i gwsmeriaid, gan sicrhau bod ein gwasanaethau yn cynyddu effeithlonrwydd, effeithiolrwydd a gwerth am arian cymaint â phosibl, a hynny drwy arwain systemau a dull gweithredu 'Unwaith i Gymru'.**



- Darparodd y Gwasanaethau Cyfreithiol a Risg gyngor a chymorth cyfreithiol ar draws GIG Cymru mewn perthynas â'r Ymchwiliad Cyhoeddus presennol i Covid-19 a chydnabuwyd eu cyflawniadau eithriadol mewn Digwyddiad Gwobrau Cyfreithiol diweddar.
- Cwblhawyd Proses Newid Sefydliadol Trawsnewid Mynediad at Feddyginiaethau ar gyfer yr Uwch Dîm Arwain gan y Tîm Pobl a Datblygu Sefydliadol, mewn partneriaeth â chydweithwyr Fferylliaeth, Byrddau Iechyd, Ymddiriedolaethau a Phartneriaid TU, i drawsnewid gwasanaethau gan ddefnyddio dull gweithredu Unwaith i Gymru.
- Bu Unwaith i Gymru yn prynu a chyflenwi Meddyginiaethau trwy Drwydded Delio Cyfanwerthu er mwyn hwyluso arbedion gwariant ar feddyginiaethau mewn Byrddau Iechyd ac Ymddiriedolaethau, gan gynnwys Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru.
- Cynorthwyodd y Gwasanaethau Dyfarniadau Myfyrwyr i ddatblygu a gweithredu datrysiad digidol newydd i fyfyrwyr gofal iechyd i'w helpu i wneud cais am fwrsariaeth GIG Cymru ac i'w reoli, gan fod y rhaglen hunanwasanaeth yn gyflymach, yn darparu amcangyfrif cyn-asesiad ac yn arwain y myfyriwr drwy'r broses. Hefyd, oherwydd hyn, cafodd 100% o geisiadau myfyrwyr eu prosesu o fewn y targed 20 diwrnod.
- Mae Ardystiadau a ddelir gan Wasanaethau o fewn PCGC yn cynnwys:
  - ISO 27001 Diogelwch Gwybodaeth
  - ISO 14001 yr Amgylchedd
  - ISO 9001 Ansawdd
  - ISO 45001 Iechyd a Diogelwch
  - Galwedigaethol
  - ISO 17025 Labordai Profi a Graddnodi
  - STS Diogelwch Bwyd (Storfeydd Rhanbarthol)
  - Rhagoriaeth mewn Gwasanaethau Cwsmeriaid
  - Lexcel (Achrediad Cymdeithas y Cyfreithwyr)
  - Cynhyrchion Meddyginiaethau a Gofal Iechyd Trwydded "Arbennig" Asiantaeth Rheoleiddio (MHRA)
  - Trwydded Deliwr Cyfanwerthu MHRA
  - Trwydded Cyffuriau Rheoledig y Swyddfa Gartref
  - Wedi ei chofrestru gyda'r Cyngor Fferyllol Cyffredinol (Safleoedd Fferyllol y Cyngor Fferyllol Cyffredinol (CFfC)




**Byddwn yn gweithio mewn partneriaeth i ddarparu gwasanaethau gwydn a fydd yn helpu GIG Cymru i ymadfer ar ôl heriau COVID-19, fydd yn arwain at Gymru iachach ac yn cefnogi Gofal Sylfaenol cynaliadwy.**

- Storiwyd a chyflenwyd 650,000 o ddosau o frechlyn COVID-19 yn ystod 2022-23 i safleoedd gofal sylfaenol, prynwyd a chyflenwyd 18,000 o unedau o ddaliant gwrthfiotig i gefnogi argyfwng iechyd cyhoeddus Strep-A a rheolwyd stoc wrth gefn o'r brechlyn ffliw ar gyfer gwasanaethau meddygon teulu.

- Cyflwynodd y Gwasanaethau Gofal Sylfaenol System Rheoli Ansawdd a chynyddodd y Tîm Cofrestru Ansawdd a Sicrwydd ymgysylltiad gan symud gwaith o bractisiau meddygon teulu a lleihau'r baich arnynt, tra'n cynyddu lefelau sicrwydd a gwella ansawdd a mynd ati'n gyson i geisio gwella ein darpariaeth gwasanaeth tra'n darparu cymorth rhagorol i'n holl randdeiliaid.

- Rhagorodd y Gwasanaethau Cyflogres ar y targed cywirdeb cyflog gan adrodd cywirdeb cyflog o 99.91% ar draws GIG Cymru. Rheolwyd llwyth gwaith sylweddol uwch, ochr yn ochr ag ymyriadau llaw lluosog ar gyfer Taliadau Covid, Dyfarniadau Cyflog ac Asesiadau Haen Pensiwn.

- Wrth weithredu SupplyX ar draws >30 o leoliadau gorchuddion cymunedol a >150 o leoliadau clinigol eraill sicrhawyd bod stoc ar gael ar yr amser cywir ac yn y symiau cywir ar gyfer cleifion gofal sylfaenol y mae arnynt angen gorchuddion ac eitemau stoc eraill. Mae gwell tryloywder stoc a rhyngwynebausystemau ailgyflenwi wedi lleihau'r ymdrech a'r adnoddau cludiant sydd eu hangen i ateb y galw.

- Mae cyfarfodydd wedi parhau gyda grwpiau rhanddeiliaid allweddol gan gynnwys Ysgrifenyddion Bwrdd, Cyfarwyddwyr Cyllid, Cadeiryddion Pwyllgorau Archwilio ac Archwilio Cymru i drafod dulliau archwilio, adrodd a gwaith Cenedlaethol.

- Bu'r Labordy Profi Dyfeisiau Llawfeddygol yn gweithio gyda chydweithwyr yn yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol i ddarparu Sicrwydd Technegol ynghylch dyfeisiau meddygol a Chyfarpar Diogelu Personol (PPE), gan roi cyngor i GIG Cymru ar bosiblrwydd estyn oes dyfeisiau meddygol a PPE y mae eu dyddiad wedi dod i ben.



**Byddwn yn cefnogi GIG Cymru i oresgyn eu heriau, trwy hyrwyddo dysgu gwersi a rhannu arfer da, gan nodi cyfleoedd pellach i ddarparu gwasanaethau o ansawdd uchel.**

- Cwblhawyd adolygiadau tystiolaeth a datganiadau cyngor gan y Bwrdd Caffael ar Sail Tystiolaeth ac arweiniodd hynny at gyfleoedd i ddarparu gwasanaethau a chynhyrchion o ansawdd uchel sy'n seiliedig ar dystiolaeth i gleifion GIG Cymru.

- Datblygwyd Dangosfwrdd Dadansoddi Data Archwilio sy'n darparu gwybodaeth gymharol am adroddiadau archwilio, sgoriau sicrwydd a themâu archwilio ar draws GIG Cymru dros y pum mlynedd diwethaf. Cynhyrchwyd Adroddiadau Thematig Cymru Gyfan oedd yn amlygu arfer da, er enghraifft cydymffurfedd Ystadau, llinell sylfaen TG ac Archwilio Clinigol.

- Bu profiad blaenorol a gwersi a ddysgwyd yn labordai cathetr Bae Abertawe yn sail i waith mwy diweddar, sef rhoi rhaglen rheoli stocrestr SupplyX ar waith yn Ysbyty Glan Clwyd, Bu hyn yn gymorth tuag at gwrdd â heriau gwella rheolaeth stoc, gweledедd stoc a phrosesau archebu mwy effeithlon. Caiff cyfleoedd pellach eu datblygu i adnabod cynnyrch.

- Fe wnaethom wella profiad ein defnyddwyr Ceir Prydles trwy rhoi Datrysiad Digidol Ceir Prydles ar waith sy'n awtomeiddio'r broses anfonebu.

- Mae'r Gwasanaethau Ystadau Arbenigol (SES) yn cadeirio Grŵp Rheolwyr Ystadau Cymru Gyfan. Cafwyd cyflwyniadau ar ganllawiau newydd neu ddysgu prosiect byw, gan staff SES, neu gydweithwyr yn GIG Cymru, sy'n cyflwyno gwersi o brosiectau a gyflawnwyd ganddynt.

- Parhaodd y Labordy Profi Dyfeisiau Llawfeddygol (SMTL) i gefnogi Byrddau Iechyd yn eu hymdrechion i wella awyru mewn wardiau ysbytai. Ymgymerwyd â phrosiectau monitro amgylcheddol ar gyfer Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda a Bwrdd Iechyd Addysgu Powys, i asesu effeithiolrwydd dyfeisiau masnachol sydd wedi'u cynllunio i ddiheintio aer sy'n cylchredeg.

# Cydnabod Staff

**Roedd Gwobrau Cydnabod Staff PCGC 2022, a gynhaliwyd ar 25 Ionawr 2023, yn rhoi cyfle i'r Uwch Grŵp Arwain gydnabod yn ffurfiol ymrwymiad, ymroddiad a phroffesiynoldeb anhygoel ein holl staff o bob rhan o Gymru.**

Seremoni Gwobrau Cydnabod Staff 2022 oedd ein 7fed digwyddiad o'r fath, a'r trydydd i gael ei gynnal yn rhithiol, i ddathlu llwyddiant timau ac unigolion sydd wedi mynd y tu hwnt i'r disgwyl yn PCGC.

Cydnabuwyd staff mewn nifer o gategorïau gan gynnwys Gwerthoedd Craidd ein sefydliad sef Gwrando a Dysgu, Cydweithio, Arloesi a Chymryd Cyfrifoldeb. Cafwyd cydnabyddiaeth bellach yn y categorïau eraill sef Iechyd a Llesiant, y Gymraeg, Arweinyddiaeth, Modelu Amrywiaeth a Chynhwysiant, yr  Amgylchedd, Tîm y Flwyddyn, Partneriaeth Undebau Llafur ac Arwyr Cudd. Derbyniodd nifer o gydweithwyr hefyd Wobr Seren y Rheolwr Gyfarwyddwr am eu cyfraniadau rhagorol.

Yn unol â'r uchod, mae cyfres o ddigwyddiadau Gwobrau Cydnabod Staff rhanbarthol  hefyd ar y gweill, a´r rheini´n rhai ´wyneb yn wyneb´, lle mae cydweithwyr yn cael eu cydnabod yn bersonol gan yr Uwch Grŵp Arwain. Cynhaliwyd y digwyddiad cyntaf ar safle Matrix House yn Abertawe a chyflwynwyd gwobrau a thystysgrifau i nifer o gydweithwyr. Cynhaliwyd digwyddiadau rhanbarthol pellach ar draws Cymru yn ystod haf 2023.

















> *Yn ystod y digwyddiad amlygwyd y gwaith rhagorol y mae staff wedi'i wneud, ac yn parhau i'w wneud a gallaf ddweud fy mod yn hynod falch o arwain sefydliad y mae ei staff bob amser yn mynd yr ail filltir ym mhopeth a wnânt.*
>
> *- Neil Frow, Rheolwr Gyfarwyddwr PCGC*

# Iechyd a Llesiant





## Iechyd a Llesiant

***Mae PCGC wedi ymrwymo'n llwyr i hybu iechyd a llesiant ei weithwyr. Fel gwasanaeth iechyd, mae iechyd a llesiant yr un mor berthnasol i'n gweithwyr ag y mae i'r boblogaeth leol.***

Rydym am wneud cymaint ag y gallwn i alluogi ein gweithwyr i fod ar eu gorau, i fod yn llawn egni, cymhelliant ac yn ymroddedig i'w gwaith. Mae'n bwysig ein bod yn cymryd camau rhagweithiol i sicrhau bod llesiant ein staff yn cael ei gefnogi a'i ddiogelu'n llawn. Bydd hyn yn galluogi ein gweithwyr i ffynnu, i gyrraedd eu llawn botensial yn y gweithle a'r tu allan iddo, ac ar yr un pryd  gefnogi PCGC i gyflawni ei nodau strategol.

Ar ôl cyhoeddi ein Fframwaith Iechyd a Llesiant ar gyfer 2022-2024, mae'r cynllun gweithredu thematig yn helpu i adeiladu ar y gwaith a wnaed eisoes i greu diwylliant ac amgylchedd lle mae ein rheolwyr a'n staff yn canolbwyntio ar lesiant, gan anelu at ddarparu amgylchedd gwaith ar gyfer staff sy'n eu galluogi i ffynnu fel gweithlu iach, ymroddedig, a llawn cymhelliant.  Mae'n cwmpasu 5 thema allweddol, gyda rhaglenni a fydd yn cefnogi darparu llesiant gwell:

- Gwella llesiant corfforol ein staff — 01
- Gwella llesiant meddyliol ein staff — 02
- Gwella llesiant trwy arferion rheoli pobl — 03
- Cefnogi llesiant economaidd a chymdeithasol — 04
- Cyfranogiad Gweithwyr — 05

## Grŵp Partneriaeth a Hyrwyddwyr Iechyd a Llesiant

Sefydlwyd y Grŵp Partneriaeth Iechyd a Llesiant yn 2019 ac mae'n cefnogi rhoi'r Fframwaith Iechyd a Llesiant ar waith trwy ddatblygu, monitro a chyfathrebu camau gweithredu llesiant. Mae iddo aelodaeth eang o bob rhan o'r sefydliad, gan gynnwys Partneriaid Undebau Llafur i sicrhau bod rheolwyr a staff yn cael eu cynrychioli, yn ymgysylltu ac yn ymwneud ar y cyd â'r gwaith o ddarparu a datblygu, wrth edrych tua'r dyfodol.

Mae'r Grŵp Partneriaeth Iechyd a Llesiant yn parhau i gyfarfod bob deufis, dan gadeiryddiaeth ein Cyfarwyddwr Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol. Mae gennym 50 o Hyrwyddwyr Iechyd a Llesiant ar draws y sefydliad. Dros y flwyddyn ddiwethaf mae'r Hyrwyddwyr wedi bod ynglŷn â phenderfyniadau ynghylch datblygu'r Grŵp yn y dyfodol. Mae'r Hyrwyddwyr yn aelodau o Sianel Timau lle gallant gyrchu gwybodaeth i'w rhannu gyda'u timau. Rydym hefyd yn cynnal "bore coffi Hyrwyddwyr" rhithwir bob yn ail fis er mwyn dod i adnabod ein gilydd a rhannu awgrymiadau a syniadau.



## Cynhadledd Iechyd a Llesiant

Cynhaliwyd ein Cynhadledd Iechyd a Llesiant flynyddol ym mis Hydref 2022 yn rhithwir ac roedd tua 300 o gyfranogwyr yn bresennol. Cafodd y digwyddiad ei recordio ac roedd ar gael i'w wylio wedyn. Roedd yr adborth yn gadarnhaol iawn a'r diwrnod yn rhyngweithiol iawn. Roedd yn cynnwys 2 sesiwn gweithgarwch corfforol, ioga a ymarfer ffitrwydd, yn ogystal â sgwrs fywiog. Hefyd cafwyd sesiynau ar "Ffitrwydd Ariannol", "Effaith pwysau ariannol ar Iechyd Meddwl", "O Straen i Orffwys", a "Bwyta'n Iach ar Gyllideb".





## Cynllun Buddion Staff

O fewn Tîm Buddion Staff PCGC, rydym yn cynnig y cynlluniau canlynol i staff:

- **Cynllun Prydlesu Cerbydau Staff** Caiff y cynllun hwn ei redeg ar y cyd ag NHS Fleet Solutions a'i nod yw rhoi'r cyfle i bob aelod cymwys o staff PCGC gael cerbyd o'u dewis am bris cystadleuol iawn,ac ar yr un pryd arbed arian i'r sefydliad a ddefnyddir i gefnogi'r gwasanaethau a ddarperir i gleifion.

- **Cynllun Beicio i'r Gwaith** Bwriad y cynllun yw rhoi cyfle i bob aelod cymwys o staff PCGC i brynu beic a chyfarpar cysylltiedig er mwyn beicio i'r gwaith (e.e. helmedau, dillad, etc.) am bris cystadleuol iawn, er mwyn annog teithio a chymudo egniol yn ôl ac ymlaen i'r gwaith, ac ar yr un pryd arbed arian i'r sefydliad a fydd yn cefnogi'r gwasanaethau a ddarperir i gleifion.

- **Cynllun Cyfarpar Electronig yn y Cartref** Caiff ei redeg ar y cyd â Home Electronic Solutions a'i fwriad yw rhoi'r cyfle i bob aelod cymwys o staff PCGC i brynu eitemau electronig o'u dewis ar gyfer y cartref am bris cystadleuol iawn o Currys/PCWorld, ac ar yr un pryd arbed arian i'r sefydliad a ddefnyddir i gefnogi'r gwasanaethau a ddarperir i gleifion. Nid oes angen rhoi blaendal ac nid yw'r costau'n newid trwy'r holl gyfnod ad-dalu.

- **Ad-dalu Benthyciadau trwy Gyflog** Mae'r cynllun yn cynnig benthyciadau ar gyfraddau fforddiadwy, i fwy o bobl na chynlluniau cyfatebol gan fanciau, fel dewis fforddiadwy arall yn lle cardiau credyd a gorddrafftiau. Gellid ei ddefnyddio hefyd i dalu costau annisgwyl neu i gynorthwyo i gyflawni nodau ariannol tymor hir.

## Llesiant Ariannol

Yn ystod 2022, fe wnaethom ymuno hefyd â Salary Finance i gynnig cyngor ariannol a benthyciadau fforddiadwy a ad-delir yn uniongyrchol o gyflog gweithiwr. Mae Salary Finance yn cynnig setiau o fideos addysg yn ogystal â gweminarau, cyfrifianellau, offer a chanllawiau bywyd, a'r bwriad yw bod yr addysg ariannol yn helpu staff i ddeall a rheoli eu harian yn well.


- **Adnoddau Llesiant Ariannol** Mae'r argyfwng costau byw wedi effeithio ar lesiant llawer o bobl dros y flwyddyn ddiwethaf. Mae PCGC wedi gwella'r adnoddau a'r wybodaeth sydd ar gael i staff, gyda thudalen fewnrwyd newydd sy'n haws ei llywio. Mae hon yn cynnwys dolenni i ystod o wahanol ffynonellau cymorth gan gynnwys Gwefan Moneyhelper, a mentrau'r Undebau a'r Llywodraeth.

- **Wythnos Siarad am Arian** Am y tro cyntaf ym mis Tachwedd 2022, cymerodd PCGC ran yn yr Wythnos Siarad am Arian. Cynhaliwyd gweithdai i staff ar gynllun pensiwn y GIG, y menopôs ac anfonwyd negeseuon ar wahanol themâu drwy gydol yr wythnos ar bynciau megis yr effaith ariannol ar rianta, biliau cyfleustodau a chyfrifoldebau gofalu, a ble gellir dod o hyd i gymorth.

## Gweithdai Llesiant

- **Leah Davies**
  Hyfforddwr bywyd ysbrydoledig, a gynhaliodd gyfres o weithdai ar-lein i staff trwy gydol 2022, ar bynciau fel "Sut i fod yn ffrind gorau i chi'ch hun" ac "Ymwybyddiaeth Ofalgar Ein Hoes Ni".

- **Gweithdai Ymwybyddiaeth Straen**
  Cyflwynwyd y rhain yn rheolaidd gan Joanne Pitt, seicotherapydd o'r "Rwydwaith Cefnogwyr Staff". Caiff y sesiynau eu cynnal ar-lein ar gyfer grwpiau bach ac maent yn canolbwyntio ar ffyrdd o adeiladu eich gwytnwch personol.



## Llesiant Corfforol



- **Sesiynau gweithgarwch corfforol**
  Yn dilyn y gynhadledd cafwyd ceisiadau am sesiynau gweithgarwch corfforol pellach ar-lein. Mae PCGC wedi dechrau cynnal sesiynau misol amser cinio am gyfnod prawf o 6 mis, a´r rheini´n cynnwys sesiynau hanner awr o ymarferion dwyster canolig, tai-chi a yoga desg. Mae'r ymarferion yn cael eu recordio ac ar gael i'w gwylio am wythnos yn dilyn y sesiynau.

- **Adnoddau ymlacio ac ymwybyddiaeth ofalgar**
  Fel rhan o fis Ymwybyddiaeth Straen, ychwanegwyd tudalennau adnoddau newydd at fewnrwyd y staff, oedd yn darparu gwybodaeth, ac adnoddau i gefnogi staff a allai fod yn teimlo dan bwysau. Mae'r rhain yn cynnwys fideos byr ac apiau am ddim y gellir eu defnyddio i gymryd seibiannau byr pan fo angen drwy'r dydd.

- **Cefnogaeth menopôs**
  Mae´r Caffi Menopôs yn parhau i redeg yn fisol a bellach mae´n cynnig aelodaeth o sianel Timau Menopos, lle gellir holi cwestiynau a rhannu awgrymiadau ac adnoddau.

## Iechyd Meddwl

***Isod ceir enghreifftiau o fentrau buom yn gweithio arnynt yn ystod 2022-23:***

- **Cyflwyno'r dudalen cymorth iechyd meddwl diwylliannol** i sicrhau bod pob aelod o staff o fewn PCGC yn gallu dod o hyd i gymorth pan fo angen.

- Ar ôl ystyried demograffeg ein gweithlu crewyd **tudalen gymorth bwrpasol yn benodol ar gyfer pobl ifanc 16-25 oed** gyda mynegbostio, awgrymiadau cyswllt a chanllawiau i oedolion ifanc.

- **Ehangu'r Rhaglen Cymorth Cyntaf Iechyd Meddwl** trwy hyfforddi 2 aelod o'r Tîm Pobl a Datblygiad Sefydliadol fel Hyfforddwyr Cymorth Cyntaf Iechyd Meddwl. Bydd hyn yn caniatáu i ni hyfforddi ymhellach yn fewnol.

- **Datblygwyd cynllun gweithredu i lansio ein Rhaglen Canolfan Achrededig Cymorth Cyntaf Iechyd Meddwl.** I gyflawni hyn bydd angen i ni fuddsoddi mewn Tîm Hyfforddwyr ac Aseswyr cymwys a Dilyswr Mewnol, llunio grŵp o bolisïau penodol i'r ganolfan asesu a sefydlu cangen weinyddol y ganolfan, gwneud cais i fod yn ganolfan achrededig gyda'r corff dyfarnu Safe Cert Awards a chynnal ymweliad cymeradwyo a gaiff ei hwyluso gan Ddilyswr Allanol.





- Cyflwynwyd **sesiynau ymwybyddiaeth iechyd meddwl dynion,** a ddarparwyd gan Marauders Men's Health ar draws sawl safle a sefydlwyd grŵp cymorth misol pwrpasol i ddynion a thudalen iechyd meddwl.

- **Ychwanegwyd platfformau cymorth iechyd meddwl newydd** megis MIND Cymru, SHOUT, Hafal, C.A..LL., Maximus a llawer mwy. Mae pob rhwydwaith yn cynnig pecynnau cymorth gwahanol i gyd ar gael am ddim i staff.

- **Cyflwynwyd adnoddau Maximus (Remploy) am ddim,** gan gynnwys sesiwn gweithdy ar ymwybyddiaeth, oedd yn rhoi sylw arbennig i´r Gwasanaeth Cymorth Iechyd Meddwl Mynediad at Waith a sut y gallwn gefnogi'r rheini sy'n dioddef o iselder yn y gwaith. Yn ogystal, maent yn cynnig gwasanaeth cefnogi gan Ymgynghorydd Galwedigaethol sy'n cynnig 9 mis o gefnogaeth emosiynol am ddim i staff.

# Amrywiaeth a Chynhwysiant

***Mae Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru (PCGC) yn falch o ddathlu cydraddoldeb ac amrywiaeth, ac rydym eisiau i'n holl weithwyr deimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi, eu parchu a'u cynnwys yn y sefydliad. Dyma pam rydym yn meddwl ei bod yn bwysig hyrwyddo digwyddiadau a chyfleoedd sy'n cefnogi'r agenda hon ac annog ein gweithwyr i ddathlu eu gwahaniaethau.***

Yn ystod 2022-2023, buom yn gweithio ar y cyd â'n staff i barhau i ddatblygu dull ystwyth o weithio er mwyn denu a chadw gweithlu amrywiol. Adnewyddwyd ein Gwerthoedd Craidd a datblygwyd Fframwaith Ymddygiad Gwerthoedd ar y cyd â'n Hyrwyddwyr Newid Diwylliant mewn ymateb i adborth gan gydweithwyr.



Yn ogystal, buddsoddwyd mewn swydd newydd i gefnogi ehangu mynediad a swydd newydd i gefnogi amrywiaeth a chynhwysiant. Parhawyd i gynnal Asesiadau Effaith Integredig ar Gydraddoldeb (EqIIAs) mewn perthynas ag amrywiaeth o brosiectau a datblygiadau gwasanaeth ar draws y sefydliad. Rydym yn gweithio ar y cyd â sefydliadau GIG Cymru i gyflwyno amrywiaeth o fentrau i staff mewn perthynas â chydraddoldeb ac amrywiaeth ac mae gennym gynrychiolaeth ar Grŵp Arwain Cydraddoldeb GIG Cymru, gan hyrwyddo ymgyrchoedd fel Mae'n Gwneud Synnwyr, Pride Cymru ac Wythnos Cydraddoldeb y GIG.









Roeddem yn falch o gael ein cydnabod fel Cyflogwr Ymwymedig i fod yn Hyderus o ran Anabledd ac mae gennym gynlluniau yn eu lle i weithio tuag at ennill statws Cyflogwr Hyderus o ran Anabledd ac Arweinydd Hyderus o ran Anabledd, wrth edrych tua´r dyfodol. Ymhellach, cawsom wobr Canmoliaeth Uchel mewn Gwella Llesiant a Pherthyn yn y Gwaith gan Rwydwaith y Cyflogwyr ar gyfer Cydraddoldeb a Chynhwysiant (ENEI), mewn perthynas â darparu rhwydweithiau staff a chyfleoedd i glywed llais y gweithwyr trwy Grŵp Partneriaeth Iechyd a Llesiant y sefydliad. Y rhain yw Grŵp Hyrwyddwyr Newid Diwylliant PCGC, Caffi Menopôs, Grŵp LHDTCRhA+ Balch a mwy.

# Perfformiad





# Dangosyddion Perfformiad Allweddol

## Dangosyddion Perfformiad Allweddol mewnol:

| Dangosyddion Perfformiad Allweddol a Thargedau Lefel Uchel | 2022 - 23 Gwirioneddol | 2022 - 23 Targed |
|---|---|---|
| **Corfforaethol a Chyllid** | | |
| Sefyllfa Ariannol Gytbwys | Adennill Costau | Adennill Costau |
| Sefyllfa Ariannol Gyfalaf Gytbwys | O fewn y Terfyn Adnoddau Cyfalaf | O fewn y Terfyn Adnoddau Cyfalaf |
| Dosbarthiad a Gynlluniwyd | £2M | £750K |
| % o anfonebau a dalwyd o fewn 30 diwrnod | 96% | 95% |
| **Dangosyddion Perfformiad Allweddol Sefydliadol PCGC – Recriwtio** | | |
| % Swyddi Gwag o'u creu i gynnig diamod o fewn 71 diwrnod. | 68.5 | 71 |
| % Swyddi Gwag a gymeradwywyd o fewn 10 diwrnod gwaith | 9.6 | 10 |
| % Swyddi Gwag y lluniwyd rhestr fer ar eu cyfer o fewn 3 diwrnod gwaith | 7.8 | 3 |
| % o ganlyniadau Cyfweliadau a hysbyswyd o fewn 3 diwrnod gwaith | 3.6 | 3 |
| **Gweithlu** | | |
| Absenoldeb Salwch Staff | 2.81% | 3.30% |
| Cydymffurfedd ag Adolygiadau Perfformiad a Datblygu | 85% | 85% |
| Cydymffurfedd â hyfforddiant statudol a gorfodol | 91% | 85% |
| Asiantaeth % | 0.29% | <0.8% |

## Dangosyddion Perfformiad Allweddol allanol:

| Dangosyddion Perfformiad Allweddol a Thargedau Lefel Uchel | 2022 - 23 Gwirioneddol | 2022 - 23 Targed |
|---|---|---|
| **Dylanwad Proffesiynol** | | |
| Buddion Dylanwad Proffesiynol | £172M | £110m |
| **Caffael** | | |
| Arbedion Caffael | £53M | £32M |
| **Cyfrifon Taladwy** | | |
| Arbedion a Llwyddiannau | £5M | |
| % o anfonebau Cymru Gyfan a dalwyd o fewn 30 diwrnod | 95% | 95% |
| **Gwasanaethau Cyflogaeth** | | |
| Cywirdeb Cyffredinol y gyflogres | 99.9% | 99.6% |
| Cywirdeb Cyffredinol y gyflogres | 99.7% | 99.6% |
| % y Galwadau a wnaed i'r Gyflogres | 81.0% | 95% |
| **Dangosyddion Perfformiad Allweddol Sefydliadol Cymru Gyfan – Recriwtio** | | |
| % o Swyddi Gwag o'u creu i gynnig diamod o fewn 71 diwrnod. | 81 | 71 |
| % o Alwadau Recriwtio yr ymdriniwyd â hwy | 96% | 95% |
| **Dangosyddion Perfformiad Allweddol Sefydliadol PCGC Cymru** | | |
| % o Swyddi Gwag a hysbysebwyd o fewn 2 ddiwrnod | 98% | 98% |
| % o lythyrau cynnig amodol a anfonwyd o fewn 4 diwrnod gwaith | 97% | 98% |
| **Dyfarniadau Myfyrwyr** | | |
| % o Alwadau Dyfarniadau Myfyrwyr yr Ymdriniwyd â Hwy | 100% | 95% |
| gwaith o'u derbyn % o lythyrau cynnig amodol a anfonwyd | 100% | 100% |
| **Tîm Canolog Gwasanaethau e-Fusnes** | | |
| Caiff digwyddiadau blaenoriaeth uchel a godir gyda'r Tîm Canolog ymateb o fewn 20 munud | 100% | 80% |
| Bydd tocynnau Pwynt Gwasanaeth BACS a dderbynnir cyn 14.00 yn cael eu prosesu ar yr un diwrnod gwaith | 100% | 92% |

| Dangosyddion Perfformiad Allweddol a Thargedau Lefel Uchel | 2022 - 23 Gwirioneddol | 2022 - 23 Targed |
|---|---|---|
| **Gwasanaethau Gofal Sylfaenol** | | |
| Taliadau gofal sylfaenol a wnaed yn unol â therfynau amser Statudol | 100% | 100% |
| Presgripsiynau - cyfraddau Cywirdeb mewnbynnu | 100% | 99% |
| Cofnodion meddygol brys a drosglwyddwyd o fewn 2 ddiwrnod gwaith | 100% | 100% |
| Aseiniadau cleifion a weithredwyd o fewn 24 awr i dderbyn y cais | 100% | 100% |
| Rhybuddion Rhaeadru Categori A i'w cyhoeddi o fewn 4 awr o'u derbyn | 100% | 80% |
| **Archwilio a Sicrwydd (Mehefin - Mawrth 23)** | | |
| Barn archwilio/adroddiadau blynyddol yn cadw at yr amserlen | Yes | Yes |
| Archwiliadau wedi'u cyflawni ar gyfer pob Pwyllgor Archwilio yn unol â'r cynllun y cytunwyd arno | Yes | Yes |
| Cyflymder cynhyrchu adroddiadau - o waith maes i gyflwyno adroddiad drafft [10 diwrnod] | 93% | 95% |
| Cyflymder cynhyrchu adroddiadau - ymateb rheolwyr i'r adroddiad drafft [15 diwrnod] | 72% | 75% |
| Cyflymder cynhyrchu adroddiadau - o ymatebion i'r drafft i'r adroddiad terfynol [10 diwrnod] | 100% | 95% |
| **Gwasanaethau Ystadau Arbennig** | | |
| Arbedion Dylanwad Proffesiynol | £14M | £5.5M |
| **Gwasanaethau Cyfreithiol a Risg** | | |
| Arbedion a Llwyddiannau | £75M | £65M |
| Prydlondeb cydnabod cais am gyngor - o fewn 24 awr | 100% | 90% |
| Prydlondeb rhoi cyngor – o fewn 3 diwrnod neu o fewn yr amserlen gytunedig | 97% | 90% |
| **Cronfa Risg Cymru** | | |
| Yr amser rhwng cyflwyno a'i ystyried gan y Panel Cynghori ar Ddysgu | 97% | 95% |
| Amser o'i ystyried gan y Panel Cynghori ar Ddysgu i'w gyflwyno i Bwyllgor Cronfa Risg Cymru | 100% | 100% |
| Cynnal digon o gyfarfodydd o'r Panel Cynghori ar Ddysgu | 100% | 90% |

| Dangosyddion Perfformiad Allweddol a Thargedau Lefel Uchel | 2022 - 23 Gwirioneddol | 2022 - 23 Targed |
|---|---|---|
| **Y Labordy Profi Dyfeisiau Llawfeddygol** | | |
| % o adroddiadau digwyddiad a anfonwyd at yr Awdurdod Rheoleiddio o fewn 50 diwrnod i dderbyn y ffurflen | 100% | 100% |
| % o adroddiadau wedi eu harchwilio a gyflwynwyd yn brydlon (Masnachol) | 96% | 87% |
| % o werthusiadau sicrwydd Technegol a gyflwynwyd yn brydlon | 100% | 87% |
| **Datrysiadau Gweithlu Digidol** | | |
| Boddhad Cwsmeriaid | 93% | 90% |
| % o Alwadau yr Ymdriniwyd â hwy | 89% | 70% |

***Yn ystod 2022-23, adnewyddwyd ein Fframwaith Perfformiad i ddod â mesurau perfformiad ynghyd sy'n amlygu ein perfformiad strategol. Rydym yn parhau i ddarparu astudiaethau achos a dulliau ansoddol eraill i ddangos ein perfformiad. Yn ystod y flwyddyn rydym hefyd wedi creu Grŵp Perfformiad a Chanlyniadau, yn benodol i edrych ar ddatblygu mesurau canlyniadau ac adolygu DPA cyfredol. Lle na chyrhaeddwyd targedau blwyddyn ariannol 2022-23, amlinellir isod drosolwg o sut byddwn yn mynd i'r afael â pherfformiad wrth edrych tua'r dyfodol.***

## Archwilio a Sicrwydd

- Cyflymder cynhyrchu adroddiadau - ymateb rheolwyr i'r adroddiad drafft (15 diwrnod) ac o waith maes i gyflwyno adroddiad drafft (10 diwrnod) sy'n mesur cyflymder cynhyrchu adroddiadau o fewn y sefydliad iechyd ac o fewn Archwilio a Sicrwydd. Methwyd â chyrraedd y targedau o drwch blewyn, ond mae Penaethiaid Archwilio yn trafod yr oediadau hyn yn uniongyrchol gyda sefydliadau iechyd a hynny'n gyson. Mae ein Penaethiaid Archwilio yn parhau i weithio'n agos gyda sefydliadau'r GIG i helpu i wella amseroedd cyflawni gwaith maes ac ymatebion rheolwyr. Caiff yr holl gynnydd o ran cynlluniau archwilio ei drafod a'i gytuno gydag Ysgrifenyddion y Bwrdd a Chadeiryddion y Pwyllgor Archwilio.

## Recriwtio

- Fel gwasanaeth sy'n gweinyddu prosesau recriwtio ar gyfer holl sefydliadau'r GIG yng Nghymru, rydym yn gweithio ar y cyd â sefydliadau i sicrhau bod gweithgareddau'n cael eu prosesu'n effeithlon, ond hefyd yn ddiogel. Mae'r timau Recriwtio wedi profi mwy o alw nag erioed o'r blaen ac yn dal i wneud.
- Mae'r Adran Recriwtio yn parhau i weithio gyda rheolwyr recriwtio trwy gyfarfodydd â chwsmeriaid a sefydliadau sydd wedi eu gwahodd. Mae'r rhaglen foderneiddio wedi'i chyflwyno ar draws yr holl sefydliadau iechyd i wella'r gwasanaeth a ddarparwn ac amser cyflogi. Mae'r Adran Recriwtio hefyd wedi cyflwyno gwiriadau rhithwir cyn cyflogi.

## Ymdrin â Galwadau Cyflogres

- Methodd y broses ymdrin â galwadau cyflogres â chyrraedd y targed cyffredinol ar gyfer y flwyddyn lawn, ond gwelwyd gwelliant mewn perfformiad yn ddiweddar gyda Chwefror (97%) a Mawrth 23 (97%) ers symud y tîm trin galwadau yn ôl i'r timau cyflogres. Mae gwelliannau pellach i'r gwasanaeth cyflogres wedi'u cynllunio ar gyfer 2023-24.

# Perfformiad Ariannol

## Targedau:

- Mae PCGC yn rhoi cymorth i holl gyrff y GIG ledled Cymru ac, fel y cyfryw, rhaid iddi ddefnyddio'r gyllideb a ddyrennir iddi i gwrdd â'r costau rhedeg, ac mae gofyn iddi adennill costau bob blwyddyn.
- Yn ogystal, bydd PCGC yn dosbarthu arbedion a gyflawnwyd yn ystod y flwyddyn ariannol i gyrff iechyd ar draws Cymru.
- Yn ogystal â sicrhau bod incwm a gwariant refeniw yn gytbwys, mae gofyn iddi hefyd sicrhau bod unrhyw wariant cyfalaf o fewn y Terfyn Gwariant Cyfalaf a ddarperir gan Lywodraeth Cymru.
- Yn olaf, mae Polisi Taliadau'r Sector Cyhoeddus (PSPP) yn ei gwneud yn ofynnol i PCGC dalu anfonebau i ddarparwyr nad ydynt yn rhan o'r GIG o fewn 30 diwrnod o gyhoeddi anfoneb neu dderbyn y nwyddau.

Yn ystod 2022–23 cyflawnwyd pob un o'n targedau perfformiad ariannol, rhagorwyd ar ein targedau arbedion a bu'n bosib i ni rannu £2 miliwn o arbedion i GIG Cymru:

## Llwyddiannau:

- Cyflawnwyd Terfyn Gwariant Cyfalaf o £5.023m
- Dosbarthwyd £2.000m o arbedion
- % o anfonebau a dalwyd o fewn 30 diwrnod - 96%




## Alldro:

2020 - 2021
**£21K**
Gwarged

2021 - 2022
**£11K**
Gwarged

2022 - 2023
**£12K**
Gwarged


## Gellir crynhoi incwm a gwariant PCGC fel a ganlyn:

| | 2022 - 23 £m | 2021 - 22 £m |
|---|---|---|
| Incwm | 778.021 | 869.973 |
| Gwariant | 572.012 | 444.093 |
| WRP - DEL* | 136.727 | 129.615 |
| WRP - AME** | 69.27 | 296.254 |
| Gwarged | 0.012 | 0.011 |

**Terfyn Gwariant Adrannol (DEL) ar gyfer talu costau yn ystod y flwyddyn sy'n ymwneud â hawliadau sydd wedi eu setlo. Caiff gwariant uwchlaw'r dyraniad blynyddol ei adennill o Fyrddau Iechyd ac Ymddiriedolaethau gan ddefnyddio cytundeb rhannu risg a gymeradwywyd gan Bwyllgor Partneriaeth PCGC ar gyfer twf mewn hawliadau craidd.*


***Gwariant a Reolir yn Flynyddol (AME) i gwrdd â chost cyfrifo ar gyfer rhwymedigaethau hirdymor hawliadau. Mae'r gyllideb hon yn seiliedig ar amcangyfrifon a ddarparwyd yn uniongyrchol i Lywodraeth Cymru gan y WRP.*

## Gwariant Refeniw




Yn ystod blwyddyn ariannol 2022-23, £778m oedd cyfanswm y gwariant. Gwariwyd £323m ar gostau cyflog, £249m ar gostau ac eithrio cyflogau ac roedd £206m yn Wariant Cronfa Risg Cymru.

## Gwariant ar Gyflogau





Ar y cyfan, mae gwariant ar staff banc, staff sy'n gweithio dros amser a staff asiantaeth yn gysylltiedig â chyflenwi swyddi gwag, swyddi gwag hirdymor neu i gynorthwyo'r ymateb i Covid sy'n parhau. Mae gwariant ar dâl cyfradd premiwm yn cael ei leihau cymaint â phosibl.

**Mae'r cynllun Un Cyflogwr Arweiniol (SLE) yn drefniant cyflogaeth a roddwyd ar waith i reoli a chefnogi'n effeithiol yr holl hyfforddeion Meddygol a Deintyddol ledled Cymru drwy gydol eu rhaglen hyfforddi.*

## Gwariant ac eithrio cyflogau

Cyfanswm y gwariant ac eithrio cyflogau ar gyfer blwyddyn ariannol 2022–23 oedd £249m, ac nid oedd hynny’n cynnwys taliadau i Gronfa Risg Cymru. Mae’r siart isod yn dangos y prif gategorïau gwariant ac eithrio cyflogau ar gyfer blwyddyn ariannol 2022-23 gyda dadansoddiad pellach o’r gwariant “arall”.




| Gwariant ‘Arall’ | £m |
|---|---|
| Dosbarthu / Warws / Profi PPE | £2.696m |
| Brechu Torfol | £0.618m |
| Taliadau o fewn y GIG | £3.716m |
| Cerbydau a Chostau Rhedeg | £3.702m |
| Mangreoedd | £4.700m |
| Addasiadau Asedau Sefydlog | £3.363m |
| Dosbarthu i Fyrddau Iechyd | £2.000m |
| Cyflenwadau a gwasanaethau Clinigol, gan gynnwys Dillad Gwely, llieiniau a chynhyrchion labordy | £3.680m |
| Cyflenwadau a Gwasanaethau Cyffredinol | £2.019m |
| Adennill Refeniw IFRS 16 | |

**Bwriad Cynllun Cymorth Gwaed Heintiedig Cymru (WIBSS) yw darparu cymorth i bobl sydd wedi’u heintio â Hepatitis C a/neu HIV yn dilyn triniaeth gyda gwaed, cynhyrchion gwaed neu feinwe´r GIG yn y 1980au a’r 1990au.*

## Buddsoddiadau cyfalaf

Yn ystod blwyddyn ariannol 2022-23 buddsoddwyd cyfanswm o £5.023m ar draws ystod eang o brosiectau cyfalaf. Buddsoddwyd swm sylweddol yn ein Golchdai i adnewyddu offer diwedd oes (£1.773m), gweithrediad blwyddyn 2 y prosiect Scan 4 Safety (£0.833m) a cherbydau newydd fel rhan o'n strategaeth adnewyddu asedau (£0.658m). Hefyd, cwblhawyd Cam 2 y cynllun i osod goleuadau LED yn ein cyfleuster storio a dosbarthu IP5 yng Nghasnewydd (£0.544m) ac adeiladwyd a rhoddwyd ar waith Hyb newydd Myfyrwyr Gofal Iechyd Cymru  (£0.474m). Buddsoddwyd hefyd mewn offer newydd yn ein Huned Feddyginiaethau i gefnogi datblygu gwasanaethau newydd i GIG Cymru (£0.213m) a rheseli ychwanegol i gynyddu ein capasiti storio o fewn IP5 (£0.252m).

| Categorïau cyfalaf dewisol | £m |
|---|---|
| TG | 0.164 |
| Ystadau | 0.095 |
| Offer | 0.407 |
| Cerbydau | 0.163 |
| Credydau Cyfalaf | -0.372 |
| **Cyfanswm Dewisol** | **0.457** |

| Cynlluniau cyfalaf ychwanegol | £m |
|---|---|
| IP5 dewisol | 0.192 |
| Scan for Safety | 0.833 |
| Trawsnewid Mynediad at Feddyginiaethau (TRAMS) | 0.305 |
| Hyb Myfyrwyr Gofal Iechyd Cymru | 0.474 |
| Rheseli IP5 | 0.252 |
| Monitro ynni Storfeydd Dinbych | 0.018 |
| Gwefrwyr EV cludadwy | 0.073 |
| Goleuadau LED IP5 | 0.544 |
| Offer Golchdy | 1.579 |
| Cerbydau'r Gwasanaeth Negesydd Iechyd | 0.495 |
| DHCW - Gweinydd Poweredge | 0.022 |
| Gwelliannau Warws Dinbych | 0.053 |
| Trosglwyddiadau glidescopes i Fyrddau Iechyd Prifysgol | -0.282 |
| **Cyfanswm Cyfalaf Ychwanegol** | **4.558** |
| Prydles IFRS16 | 0.008 |
| **Cyfanswm** | **5.023** |

# Y Fframwaith Llywodraethu

***Mae Pwyllgor y Partneriaeth Cydwasanaethau (SSPC) a Phwyllgor Archwilio PCGC yn gyfrifol am graffu, asesu a monitro perfformiad. Mae'r pwyllgorau hyn, ynghyd â sawl is-bwyllgor a grŵp ymgynghorol, yn sicrhau cydymffurfedd â Fframwaith Llywodraethu a Sicrwydd cyffredinol PCGC. Caiff papurau'r pwyllgor eu cyhoeddi ac maent ar gael ar ein gwefan.***

Mae aelodau Pwyllgor y Bartneriaeth Cydwasanaethau yn cynnwys Cadeirydd Annibynnol, Rheolwr Gyfarwyddwr PCGC ac naill ai'r Prif Weithredwr neu gynrychiolydd enwebedig arall, sy'n gweithredu ar ran pob Bwrdd Iechyd neu Ymddiriedolaeth ac Awdurdod Iechyd Arbennig GIG Cymru. Mae Pwyllgor y Bartneriaeth Cydwasanaethau yn gyfrifol am sicrhau bod PCGC yn dilyn yn gyson egwyddorion llywodraethu da, ei bod yn goruchwylio a datblygu systemau a phrosesau sefydliadol ar gyfer rheoli a llywodraethu ariannol a sefydliadol, a rheoli risg.

Swyddogaeth y Pwyllgor Archwilio yw adolygu ac adrodd ar weithrediad effeithiol y system lywodraethu gyffredinol a'r system reoli fewnol.


Mae hyn yn cynnwys rheoli risg, rheolaethau cydymffurfio gweithredol a sicrwydd cysylltiedig sy'n cefnogi cyflawni amcanion a chynnal safonau llywodraethu da.

Ceir tystiolaeth o reoli adnoddau yn ystod 2022-23 yn y Datganiad Llywodraethu Blynyddol. Mae'r datganiad yn nodi i ba raddau y cydymffurfiwyd â'n gofynion llywodraethu ein hunain, gan grynhoi'r holl ddatgeliadau sy'n ymwneud â llywodraethu, risg a rheolaeth.

Cyhoeddir Papurau Pwyllgor a Datganiadau Gweithredol ac **maent ar gael ar ein gwefan.**

Mae'r Pennaeth Archwilio Mewnol yn rhoi ei b/farn bob blwyddyn ar ddigonolrwydd ac effeithiolrwydd y prosesau rheoli risg, rheolaeth, a llywodraethu, sef **sicrwydd rhesymol** ar gyfer 2022-23.

## Ein Strwythur



# Iechyd a Diogelwch

***Mae PCGC yn rhoi'r pwys mwyaf ar iechyd, diogelwch a lles staff ac ymwelwyr. Ystyrir ei bod yn hanfodol bod rheolwyr a staff yn cydweithio'n gadarnhaol i sicrhau amgylchedd sy'n gydnaws â darparu gwasanaethau o'r ansawdd uchaf i staff ac ymwelwyr lle mae peryglon iechyd i staff ac ymwelwyr ac eraill yn cael eu lleihau, cyn belled ag y bo'n rhesymol ymarferol.***

Er mwyn cyflawni ein hamcanion, mae arnom angen gweithlu hynod fedrus, llawn cymhelliant, ymroddedig ac iach. Mae ymgysylltiad staff ac iechyd a diogelwch yn flaenoriaeth a bydd yn cael ei sicrhau mewn amgylchedd lle mae staff yn cael eu rheoli'n dda a'u gwerthfawrogi am eu cyfraniad.

Amcan PCGC yw darparu a chynnal amgylchedd diogel ac iach i bawb sy'n defnyddio ein gwasanaethau. Cyflawnir hyn trwy arweinyddiaeth effeithiol uwch reolwyr, cyfranogiad yr holl staff a sianeli.



Yn ystod 2022-23,  prif gategori digwyddiadau iechyd a diogelwch oedd:



Cyswllt â Gwrthrych



Codi a Chario Trin



Llithro, Baglu a Chwympo Cwympo



Trais ac Ymddygiad Ymosodol

## Tueddiadau ac Amcanion Iechyd a Diogelwch 2022/2023


| Categori Tueddiadau | 2019-20 | 2020-21 | 2021-22 | 2022-23 | |
|---|---|---|---|---|---|
| Cyswllt â gwrthrych/ wedi'i daro gan wrthrych | 11 | 11 | 26 | 30 | ↑ |
| Codi a Chario | 14 | 12 | 23 | 16 | ↓ |
| Llithro, baglu a chwympo | 13 | 6 | 15 | 15 | - |
| Trais ac Ymddygiad ymosodol | 14 | 10 | 10 | 15 | ↑ |

Mae cynnydd bychan i’w weld ers y flwyddyn flaenorol mewn perthynas â dod i gysylltiad â gwrthrych/cael ei daro gan wrthrych a thrais ac ymddygiad ymosodol. Mae llithro, baglu a chwympo wedi aros yr un fath â’r flwyddyn flaenorol, tra bod codi a chario wedi gostwng o’i gymharu â’r flwyddyn flaenorol.


Hefyd, mae ehangu PCGC drwy ysgwyddo cyfrifoldeb am wasanaethau eraill wedi arwain yn anochel at gynnydd mewn digwyddiadau. Er hynny, er gwaethaf y cynnydd, mae’r amcanion a osodwyd ar gyfer codi a chario, llithro, baglu a chwympo wedi’u cyflawni. Paratowyd rhestr archwiliadau mewnol iechyd a diogelwch gan y Rheolwr Iechyd a Diogelwch a’r Swyddog Cymorth Iechyd a Diogelwch yn PCGC.



## Digwyddiadau Iechyd a Diogelwch fesul Grŵp Gwasanaeth a fesul Chwarter - 2022/2023




## Digwyddiadau Iechyd a Diogelwch fesul Is-Gategori fesul Chwarter 2022-23



# Iechyd a Diogelwch yn COVID-19

***Yn ystod 2022-23, roedd Llywodraeth Cymru (LlC) yn symud tuag at dderbyn coronafeirws fel clefyd y gellir ei atal drwy frechlyn, ac mai imiwneiddio oedd yr amddiffyniad cyntaf mwyaf hanfodol. Gyda nifer cynyddol o bobl yn cael eu brechu ac ymdrechion parhaus pawb, nid oedd gofynion cyfreithiol penodol coronafeirws yn gymwys mwyach. Mae risgiau coronafeirws bellach yn cael eu hystyried yn yr un cyd-destun â risgiau clefydau trosglwyddadwy eraill (er enghraifft ffliw a norofeirws).***

Ym mis Mawrth 2022, lluniodd LlC ganllawiau sydd wedi'u nodi yn 'Gyda'n gilydd tuag at Ddyfodol mwy Diogel: Covid-19 – Cynllun pontio hirdymor Cymru o bandemig i endemig' ym mis Mawrth 2022.

O 9 Mai 2022 ymlaen nid oedd asesiad risg Covid-19 ar wahân, pellter corfforol a gorchuddion wyneb yn ofyniad cyfreithiol mwyach ac nid oeddent yn orfodol ar safleoedd PCGC. Mae Sgriniau Persbecs yn aros ar safleoedd, lle maent wedi'u gosod.

O 18 Ebrill 2022 ymlaen nid oedd angen yr asesiad risg penodol i Covid-19 bellach fel gofyniad cyfreithiol ac nid oedd yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch (HSE) yn ei gwneud yn ofynnol bellach i fusnesau ystyried COVID-19 yn eu hasesiad risg neu osod mesurau penodol yn eu lle.

O 30 Mai 2022, daeth y gofyniad cyfreithiol i wisgo gorchudd wyneb mewn lleoliadau iechyd a gofal i ben.

Mae PCGC yn parhau i gydymffurfio â Rheoliadau'r Gweithle (Iechyd, Diogelwch a Lles) 1992 ar gyfer Cyfleusterau Lles.

Roedd disgwyl i staff a leolir mewn lleoliadau iechyd a gofal a staff sy'n mynd i'r safleoedd hyn gydymffurfio â'r trefniadau lleol ar bob safle. Roedd gofyn o hyd i staff ymgyfarwyddo â'r trefniadau lleol cyn mynd i'r safleoedd hynny.

Er mwyn lleihau'r risg y byddai Covid-19 yn ymledu, parhaodd y mesurau diogelu iechyd a diogelwch canlynol yn y gweithle o fewn PCGC ac rydym yn parhau i fonitro'r canllawiau a'r rheoliadau.


- Cyfathrebu negeseuon cyson i staff.
- Diogelu staff sydd yn wynebu risg uwch a hyrwyddo brechu.
- Hyrwyddo hylendid dwylo da.
- Glanhau ychwanegol.
- Awyru digonol.
- Hyrwyddo egwyddorion gweithio ystwyth.

# Y Gymraeg


## Gwasanaethau Cymorth Cyfieithu i Sefydliadau'r GIG:

Darparodd Uned y Gymraeg wasanaethau cyfieithu i nifer o sefydliadau'r GIG yn ystod 2022/23, a chyfieithwyd dros 5.2 miliwn o eiriau. Dros y saith mlynedd diwethaf bu cynnydd sylweddol yn y galw am wasanaethau cyfieithu Cymraeg a bwriadwn fuddsoddi ymhellach yn ein hadnoddau cyfieithu yn 2023/24 a fydd yn ein galluogi i ddarparu cymorth pellach i sefydliadau'r GIG yn 2024/25 ac wedi hynny.

## Cyfieithu: Twf yn y galw 2016 - 2023




## Gwasanaethau Cyfieithu i Sefydliad y GIG 2022/23




Er mwyn cynnal gwasanaeth dibynadwy o ansawdd uchel i ateb y galw cyson gynyddol i gefnogi sefydliadau'r GIG rydym wedi recriwtio rhagor o gyfieithwyr i'n banc sefydledig o gyfieithwyr ac mae gennym gontract gwasanaeth gyda 4 cwmni cyfieithu preifat allanol.

## Ein prosiectau yn 2022/23

- **Cydymffurfedd â Safon 106A** Bellach mae protocol yn ei le i sicrhau bod rheolwyr recriwtio yn hysbysebu pob swydd wag yn Gymraeg.
- Mae **Fideo cyhoeddus Dyletswydd Gonestrwydd** ar gael yn Gymraeg.
- **Taflenni Hawdd eu Darllen i gleifion** buom yn gweithio ochr yn ochr â Chronfa Risg Cymru ac Eido Health Care i gyfieithu taflenni hawdd eu darllen ar gyfer cleifion.
- Mae **Cwrs Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR) Cymru Gyfan** ar gael i holl staff y GIG yn Gymraeg.
- Mae **fideo hyrwyddo'r Academi Gyllid** ar gael yn Gymraeg.
- **System Adrodd y Gweithlu** Mae rhyngwyneb pen blaen y system hon wedi'i ddatblygu ac yn parhau i gael ei ddatblygu'n ddwyieithog.
- System **Iechyd Galwedigaethol Cymru Gyfan** Manyleb fanwl yn Gymraeg ar gyfer caffael a datblygu'r system newydd hon. Bydd yn parhau i gael ei datblygu 2023/24.
- **System Dyfarniadau Myfyrwyr** Mae'r system wedi'i datblygu a'i lansio'n ddwyieithog i bob myfyriwr.
- Mae **Cwrs Ymwybyddiaeth Atal Twyll** ar gael yn Gymraeg
- Mae **Ap Atal Twyll** ar gael yn Gymraeg.



# Llywodraethu Gwybodaeth

Yn ystod 2022/23, cynhaliwyd y gweithgareddau canlynol o fewn y swyddogaeth Llywodraethu Gwybodaeth:

**21**

Bu staff yn mynychu dosbarthiadau LlG wyneb yn wyneb gan ddefnyddio Microsoft Teams.

**87%**

Cyfartaledd cydymffurfedd â sgiliau craidd e-Ddysgu LlG ar draws PCGC.

**91**

Ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth a gafwyd.

**430**


Galwadau Actionpoint wedi'u cofnodi ar blatfform pwrpasol y gwasanaeth.

**100%**

Cydymffurfedd ag ymateb i geisiadau Rhyddid Gwybodaeth o fewn 20 diwrnod gwaith.

**470**

Staff a fynychodd sesiwn hyfforddi LlG.



- Cwblhawyd adolygiad llawn o Hysbysiadau Preifatrwydd.
- Datblygwyd cylchlythyrau, taflenni a chyfathrebiadau rheolaidd SWAY i ddarparu diweddariadau ar bob pwnc yn ymwneud â LlG.
- Nifer isel o achosion o dorri IG a adroddwyd ac nid adroddwyd am unrhyw ddigwyddiadau difrifol.
- Sicrwydd cadarn gyda rhaglenni archwilio.
- Lansiwyd canllawiau a phrotocolau LlG newydd.
- Adolygwyd Polisïau a Gweithdrefnau yn unol â dyddiadau adolygu.
- Cwblhawyd Asesiadau o'r Effaith ar Breifatrwydd, gan gynnwys Scan4Safety, Hyb Gofal Iechyd Myfyrwyr Cymru a meddalwedd Iechyd Galwedigaethol Cymru Gyfan.

# Cyfathrebu

## 954,505 o Ymweliadau â'r Wefan

Mae platfform MURA yn gartref i wefan ddwyieithog allanol PCGC. Mae'r wefan wedi cael ei hailwampio'n sylweddol yn ddiweddar yn unol â brand y sefydliad ac â rhaglenni a phrosiectau newydd a ddatblygwyd o fewn Cydwasanaethau, ac yn ychwanegol atynt. Mae'r wefan yn parhau i ddarparu gwybodaeth allweddol i'n holl randdeiliaid gan gynnwys manylion cyswllt, gwasanaethau, a'n busnes cyffredinol.

## 2,232,966 o Ymweliadau â'r Wefan

Mae gwefan fewnol PCGC yn cael ei chynnal drwy blatfform SharePoint ac fe'i lansiwyd yn 2021. Mae'n rhoi gwybodaeth bwysig i'r holl staff am raglenni, prosiectau, mentrau, rhannu negeseuon corfforaethol allweddol, iechyd a llesiant, manylion cyswllt a newyddion cyffredinol.

## 6,166 o Ddilynwyr ar LinkedIn

Mae sianel LinkedIn PCGC yn arf ymwybyddiaeth sy'n galluogi'r sefydliad i rannu gwybodaeth gorfforaethol â rhanddeiliaid ar sail fwy ffurfiol. Mae hyn yn cynnwys y datblygiadau diweddaraf, cyflawniadau a mentrau staff, yn ogystal â darparu platfform ar gyfer recriwtio. Mae LinkedIn yn sicrhau y gallwn hefyd rannu gwybodaeth yn bersonol yn uniongyrchol gan gydweithwyr yn ogystal â'n partneriaid.

## 4,554 o ddilynwyr ar Twitter

Mae platfform Twitter yn darparu sianel arall i'r sefydliad rannu a mynegbostio rhanddeiliaid at wybodaeth ynglŷn â Chydwasanaethau sydd yn ei dro wedi helpu i godi niferoedd dilynwyr a thraffig i'n gwefan dragwyddol. Yn yr un modd â'n sianel LinkedIn, mae ein dilynwyr yn cynnwys partneriaid pwysig fel Llywodraeth Cymru, GIG Cymru, Cyrff Iechyd Arbennig, staff, Contractwyr a'r cyhoedd.

# Datblygu Cynaliadwy





# Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol

***Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn gosod nodau hirdymor uchelgeisiol er mwyn adlewyrchu'r Gymru rydym ni am ei gweld nawr ac yn y dyfodol. Rydym yn cydnabod pwysigrwydd cenedlaethau'r dyfodol, ynghyd â GIG Cymru a'n dylanwad ehangach trwy'r swyddogaethau cydwasanaethau a ddarparwn.***



Am y rheswm hwn, cynnwys y Ddeddf yw'r llinyn euraidd sy'n parhau i redeg trwy galon popeth a wnawn, ac yn rhoi sail i'n polisïau, ein strategaethau a'n cynlluniau. Rydym wedi ymgorffori'r pum ffordd o weithio sy'n sicrhau ein bod yn diogelu anghenion cenedlaethau'r dyfodol heb beryglu anghenion y presennol. Mae'n sicrhau bod ein trefniadau llywodraethu cadarn yn gwella lles diwylliannol, cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol Cymru drwy'r Egwyddor Datblygu Cynaliadwy.



Yn cyd-fynd â'r dull gweithredu hwn y mae'r angen i fynd i'r afael â newid hinsawdd a hyrwyddo'r Economi Sylfaenol. Mae datgarboneiddio yn sail i'n strategaeth darparu gwasanaethau ac mae'r tudalennau canlynol yn rhoi llawer o enghreifftiau o sut rydym yn cyflawni hyn yn ymarferol. Mae datblygu Economi Sylfaenol yng Nghymru nid yn unig yn helpu i leihau'r ôl troed carbon ond mae'n darparu mwy o wytnwch ac yn hyrwyddo busnesau a swyddi lleol.

# Egwyddor Datblygu Cynaliadwy

***Rydym wedi ymrwymo'n llawn i ddatblygu a gweithredu dull Unwaith i Gymru, lle bo'n briodol. Mae'n hanfodol ein bod yn ymgorffori Egwyddorion Datblygu Cynaliadwy Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol ac wrth dynnu sylw at ymarfer gorau adrodd integredig, rydym wedi mapio ein huchafbwyntiau a'n cyflawniadau yn erbyn 'y Pum Ffordd o Weithio'. Mae'r rhain yn ei gwneud yn ofynnol i ni feddwl am y tymor hir, integreiddio gyda'r sector cyhoeddus ehangach, cynnwys ein partneriaid a gweithio ar y cyd, er mwyn osgoi problemau a defnyddio dull mwy cydgysylltiedig o ddarparu gwasanaethau.***

Tymor Hir | Integreiddio | Cyfranogi | Cydweithio | Atal

## Tymor Hir

- Cynnal ardystiad i ISO14001: 2015 ar gyfer yr amgylchedd, ar ôl cael ein hardystio yn 2014.
- Ehangu ar ein gwaith i gefnogi'r Economi Sylfaenol yng Nghymru, gan weithio gyda chyflenwyr o Gymru a defnyddio'r Offeryn Asesu Gwerth Cymdeithasol.
- Parhau â'r gwaith o osod goleuadau LED, synwyryddion symud ac astudiaethau dichonoldeb ar gyfer paneli solar yn IP5, Matrix House a safleoedd eraill.
- Gostwng terfynau allyriadau ar draws y Cynllun Ceir Aberthu Cyflog ar gyfer cerbydau er mwyn gwneud cerbydau trydan yn fwy atyniadol ac rydym yn parhau i ehangu ar ein prosiect gosod pwyntiau gwefru i gerbydau trydan ar draws safleoedd PCGC. Mae 79% o'r 3000 o geir a ddarperir yn gerbydau trydan/hybrid.
- PCGC sy'n prynu trydan a nwy ar gyfer GIG Cymru a daw 100% o'r trydan a brynir o ffynonellau adnewyddadwy.

## Integreiddio

- Mae datgarboneiddio wedi'i ymgorffori ym mhroses gynllunio'r Cynllun Tymor Canolig Integredig (IMTP), Amcanion Strategol.
- Mae gwaith monitro ein hôl troed carbon yn broses sydd wedi'i hintegreiddio'n dda a thrwy barhau i fabwysiadu gweithio ystwyth, rydym yn creu meincnod newydd a gwella'r broses o gasglu data a chywirdeb data ar draws yr holl safleoedd.
- Cryfhau cysylltiadau ac alinio ein hagenda Datblygu Cynaliadwy ac ISO14001, gan gynnwys y Cynllun Gweithredu Datgarboneiddio, gan weithio mewn partneriaeth â phartïon â diddordeb a rhanddeiliaid allweddol i gyflawni'r nodau.
- Cynhaliwyd Seremoni Wobrwyo Flynyddol Cydnabod Staff yn rhithwir yn Ionawr 2023 a chynhwyswyd categorïau Cynaliadwyedd Amgylcheddol ac Iechyd a Llesiant.
- Cwblhawyd Asesiadau Effaith Integredig ar Gydraddoldeb ar gyfer Prosiectau ar draws y sefydliad. Cyflwynwyd Protocol ysgrifenedig gwell ar gyfer Cynigion Newid Sefydliadol.

## Cyfranogi

- Well established Health and Well-being Staff Partnership Group with regular coffee mornings for Champions, Health and Well-being Framework Annual Health and Well-being Conference for staff held in October 2022.

- Rydym wedi adnewyddu gwerthoedd craidd y sefydliad ac wedi datblygu Fframwaith Gwerthoedd Ymddygiad ar y cyd â'n Hyrwyddwyr Newid Diwylliant mewn ymateb i adborth gan gydweithwyr.

- Mae cyfleoedd i staff gymryd rhan yn yr agenda a gwneud gwahaniaeth trwy ddod yn Swyddog Cymorth Cyntaf Iechyd Meddwl, yn Hyrwyddwr Amgylcheddol, Iechyd a Llesiant, neu Ddigidol.

- Mentrau ymgysylltu â staff fel gorsaf werthfawrogi, gwobrau cydnabod staff, cylchlythyrau, Dyma Ein PCGC, canolfan iechyd a llesiant a grwpiau staff gan gynnwys Rhwydwaith LHDTCRhA+ BALCH/ PROUD a Chynghreiriaid, Grŵp Cefnogi i Ddynion a Chaffis Menopos. Yn ddiweddar, cawsom ein cydnabod yn sefydliad ag Ymrwymiad Hyderus o ran Anabledd.

- Rydym wedi buddsoddi mewn swydd newydd i gefnogi ehangu mynediad a swydd newydd i gefnogi amrywiaeth a chynhwysiant. Cafodd hyn ei gydnabod yn nigwyddiad blynyddol Gwobrau Rhagoriaeth Cynhwysiant ym mis Tachwedd 2022 gyda gwobr Canmoliaeth Uchel mewn Gwella Llesiant a Pherthyn yn y Gwaith.

## Cydweithio

- Gweithio gyda darparwyr iechyd meddwl a llesiant i gyflwyno sesiynau ar gyfer ein gweithlu ar draws meysydd llesiant emosiynol, corfforol, meddyliol ac ariannol.

- Cydweithio â chyrff cyhoeddus a phreifat ar draws gofal sylfaenol a gofal cymdeithasol ar systemau cymorth i helpu gyda recriwtio.

- Un o ofynion craidd Fframwaith Partneriaid Cadwyn Gyflenwi Adeiladu i Gymru'r GIG yw bod Buddion i'r Gymuned yn cael eu cyflawni drwy'r holl brosiectau sy'n cael eu hadeiladu ar hyn o bryd ac adroddwyd eu bod wedi creu 217 o brentisiaethau, 324 o swyddi a thua 4,000 o ymweliadau ag ysgolion lleol, hyd yma.

- Hyd yma mae sawl rhanddeiliad wedi ymwneud â chynllunio a gweithredu SupplyX gan gynnwys staff clinigol mewn gofal sylfaenol ac eilaidd, timau cadwyni cyflenwi byrddau iechyd, rheolwyr deunyddiau PCGC, timau cyllid, TG a chaffael byrddau iechyd.

- Rydym wedi gweithio ar y cyd â'n staff i barhau i ddatblygu dull ystwyth o weithio er mwyn denu a chadw gweithlu amrywiol.

## Atal

- Cynhaliwyd Asesiadau Risg Cynaliadwyedd ar gyfer pob gweithgarwch caffael dros £25,000 a chynhelir archwiliadau o'r broses hon.

- Pecyn Cymorth Gweithio Ystwyth sy'n caniatáu i staff weithio'n hyblyg yn unol â gofynion y sefydliad. Lleihau'r defnydd o adnoddau prin a chyfyngedig, fel papur ac ynni.

- Mae dull archwilio sy'n seiliedig ar risg yn canolbwyntio ar y risgiau allweddol i amcanion sefydliadol.

- Sicrwydd Cynllunio Prosiectau Cyfalaf gyda Gwasanaethau Ystadau Arbenigol sy'n darparu cyngor cyffredinol ar ystadau, pensaernïaeth, peirianneg, diogelwch tân, offer diagnostig a therapïau i Fyrddau Iechyd. Mae'n datblygu achosion busnes, yn adolygu cynigion, lle bo'r rheini ar gael, yn rhoi cyngor ar y dull o fodloni canllawiau ac arfer gorau.

- Trwy weithredu rhaglen rheoli stocrestr SupplyX ar draws 100au o fannau clinigol osgowyd gor-stocio a gor-archebu gan fod y broses ailgyflenwi stoc yn gyfyngedig i gwrdd â lefelau stoc lleol y cytunwyd arnynt ymlaen llaw.



# Perfformiad Cynaliadwyedd

***Mae PCGC wedi ymrwymo i reoli ei heffaith amgylcheddol, lleihau ei hôl troed carbon ac integreiddio egwyddor datblygu cynaliadwy yn ei busnes o ddydd i ddydd. Llwyddodd PCGC i weithredu ISO14001 fel ei System Rheoli Amgylcheddol (EMS), yn unol â gofynion Llywodraeth Cymru ac mae wedi llwyddo i gynnal ei hardystiad ers mis Awst 2014, trwy weithredu'r model gwelliant parhaus, Cynllunio, Gwneud, Gwirio, Gweithredu.***

Cynhelir archwiliadau gwyliadwriaeth blynyddol i asesu cydymffurfedd parhaus â'r Safon. Mae Safon ISO14001:2015 yn rhoi mwy o bwyslais ar ddiogelu'r amgylchedd, gwelliant parhaus trwy ddull sy'n seiliedig ar broses risg ac ymrwymiad i arwain o'r brig i lawr, gan reoli ar yr un pryd anghenion a disgwyliadau partïon sydd â diddordeb a chan ddangos perfformiad amgylcheddol cadarn, trwy reoli effaith gweithgareddau, cynhyrchion neu wasanaethau ar yr amgylchedd. Mae PCGC wedi ymrwymo i wella'r amgylchedd ac mae ganddi System Rheoli Amgylcheddol (EMS) gynhwysfawr ar waith er mwyn hwyluso'r gwaith o gyflawni'r Polisi Amgylcheddol.

Rydym wedi ymrwymo i leihau ein hôl troed carbon trwy weithredu amrywiol fentrau ac arbedion effeithlonrwydd amgylcheddol ar ein safleoedd o fewn cwmpas ein hardystiad ISO14001:2015.

**Eleni, rydym wedi llwyddo i ostwng ein defnydd o drydan, nwy, olew, dŵr a'r gwastraff a gynhyrchir ar draws safleoedd.** Mae hyn o'i gymharu â'r ffigurau a adroddwyd yn ein Hadolygiad Blynyddol 2021-22. Mae'n bwysig nodi na chafodd ffigurau gwastraff eu hadrodd yn ystod 2021-22 oherwydd y pandemig a'r cyfnod adfer.

Yn ogystal â mentrau sy'n cael eu rhedeg drwy ein safleoedd a'n Gwasanaethau, er mwyn cyflawni'r gostyngiad hwn buddsoddwyd mewn creu swydd benodol, sef Dadansoddwr Data Amgylcheddol sydd wedi bod yn ei swydd ers mis Ebrill 2022. Mae hyn hefyd wedi helpu i wella dulliau coladu a monitro data, a dilysrwydd data. Mae ein trefniadau gweithio ystwyth, ynghyd â gostyngiad yn nifer y staff ar safleoedd a mwy o addysg am ein hôl troed carbon a sut y gall staff wneud gwahaniaeth, hefyd wedi cyfrannu at y gostyngiad.

- Mae'r defnydd **o drydan** wedi gostwng 32% yn gyffredinol, oherwydd prosiectau megis gweithio ystwyth, gosod goleuadau LED a thechnoleg synwyryddion symud. Daw 3% o'r gostyngiad hwn o Unedau Gwefru Cerbydau Trydan (EVCUs) ar draws ein hystad. Mae'r trydan 'gwyrdd' a gaffaelir o REGO (Gwarantau Tarddiad Ynni Adnewyddadwy) yn garbon niwtral ac ar draws 8 o'n safleoedd. Cwblhawyd astudiaethau dichonoldeb ar gyfer paneli ffotofoltaig solar ar safleoedd fel IP5 a Matrix House.
- Cynyddodd y defnydd **o Unedau Gwefru Cerbydau Trydan (EVCUs)** ar ein safleoedd 54% yn gyffredinol (26,995 kg o CO2e). Mae'r rhain ar gael i holl staff GIG Cymru eu defnyddio 24/7. Rhoddir blaenoriaeth i'n fflyd Gwasanaethau Negesydd Iechyd, lle bynnag y bo modd, fel "olwynion y GIG yng Nghymru".
- Er bod y defnydd o drydan ar safleoedd PCGC wedi cynyddu'n gyffredinol gyda'r galw am yr unedau gwefru, rydym yn gweld hyn fel mesur cadarnhaol i'r gymuned ehangach o ran ansawdd aer, a'r defnydd o gerbydau trydan er budd yr amgylchedd. Mae hyn hefyd yn cyfrannu at Gymru Iachach a Chyfrifol ar lefel Fyd-eang gan fod gwefru cerbydau trydan yn cynhyrchu llai o CO2e na llosgi tanwydd o beiriannau petrol neu ddiesel.
- Ehangwyd y fflyd o gerbydau trydan ar draws y sefydliad, ac ysgwyddwyd cyfrifoldebau ychwanegol yn ystod y flwyddyn, sydd wedi arwain at gynnydd o 18% yn **y defnydd o danwydd cludiant** (147,397 kg o CO2e).
- Yn ogystal, gwelsom gynnydd yn **y defnydd o gerbydau cronfa** ar draws y sefydliad, gyda chynnydd o 3% (60 kg o CO2e). Mae hyn yn gadarnhaol oherwydd ei fod yn lliniaru effaith y defnydd o gerbydau staff i gymudo ac yn annog rhannu ceir, lle bo modd. Yn ogystal, mae'r ceir cronfa a ddefnyddir yn y sefydliad yn gerbydau eco-gyfeillgar (trydan, hybrid, ac ati).
- Gostyngodd y defnydd o **Nwy** 3% (16,861 Kg o CO2e), yn bennaf oherwydd gwelliannau mewn data a monitro, gan osgoi anghysondebau lle gellir eu canfod (fel newid y thermostat yn ystod yr haf/gaeaf, ac ati).
- Defnyddiwyd 5% yn llai o **olew** cerosin i gynhesu Ystad Ddiwydiannol Westpoint (634 kg o CO2e) yn ystod y flwyddyn. Dyma'r unig safle sy'n defnyddio olew i wresogi eu hadeilad ac maent wedi llwyddo i ostwng eu defnydd trwy fonitro a mesur defnydd yn briodol.
- Defnyddiwyd 6% yn llai o **ddŵr** (78 kg o CO2e), oherwydd cyfuniad o ffynonellau data gwell, mwy o ddilysrwydd, gostyngiad yn yr amcangyfrifon a ddefnyddiwyd a chyflwyno anfonebau i gefnogi data ar ddefnydd. Yn ogystal, mae'r amrywiad blynyddol naturiol yn gyfrifol am newid canrannol bach ac mae parhau i weithio'n ystwyth wedi arwain at nifer llai o staff ar gyfartaledd ar safleoedd.
- Mae **cyfanswm y gwastraff a gynhyrchir** ar draws ein holl safleoedd wedi gostwng 11.72% (2,665 kg o CO2e). Yn ystod 2022-23, rydym wedi creu llinell sylfaen newydd oherwydd gwell coladu data ac wedi elwa ar y gostyngiad yn nifer y staff ar safleoedd, oherwydd gweithio ystwyth. Mae'r holl wastraff cyfrinachol yn cael ei rwygo ar y safle a'i gludo i ffwrdd i'w ailddefnyddio mewn eitemau fel llyfrau nodiadau, papur toiled, hancesi papur, ac ati. Mae pob ffrwd wastraff arall yn cael ei gwaredu'n briodol ac yn gyfrifol ac yn unol â'r Rheoliadau perthnasol.
- Gwelwyd cynnydd o 112% yn **y milltiroedd busnes a deithiwyd** yn ystod y cyfnod a chynyddodd gwariant 218%. Mae hyn yn dal yn isel o'i gymharu â ffigurau a adroddwyd cyn mis Mawrth 2020. Roedd y cynnydd yn bennaf o ganlyniad i gynnwys y Model Un Cyflogwr Arweiniol yn ffigurau PCGC (gweler Data Ein Pobl am ragor o fanylion). Yn ogystal â hyn, creodd ffigurau'r cyfnod adfer ar ôl y pandemig linell sylfaen newydd i'r sefydliad wrth i gyfyngiadau gael eu codi ac wrth i staff allu ailddechrau teithio ar fusnes.

# Cyflogaeth Foesegol yn y Gadwyn Gyflenwi a chaethwasiaeth fodern




Sefydlwyd y Cod Ymarfer gan Lywodraeth Cymru er mwyn cefnogi datblygu cadwyni cyflenwi mwy moesegol i gyflenwi contractau i sefydliadau sector cyhoeddus Cymru sy'n derbyn arian cyhoeddus. Nod y Cod Ymarfer yw sicrhau bod gweithwyr yng nghadwyni cyflenwi'r sector cyhoeddus wedi eu cyflogi yn foesegol ac mewn modd sy'n cydymffurfio â llythyren ac ysbryd deddfau'r DU, a deddfau rhyngwladol.

Mae'n ymdrin â materion cyflogaeth fel caethwasiaeth fodern, sathru ar hawliau dynol, cosbrestru, hunangyflogaeth ffug, defnydd annheg o gynlluniau ymbarél, contractau dim oriau a thalu'r cyflog byw. Rydym wedi ymrwymo i sicrhau bod gweithgarwch caffael a gyflawnir ar ran GIG Cymru yn cael ei wneud mewn modd moesegol. Byddwn yn sicrhau bod gweithwyr yn y cadwyni cyflenwi yr ydym yn prynu ein gwasanaethau a'n nwyddau trwyddynt yn cael eu trin yn deg. Ymrwymwyd i'r Cod a datblygwyd cynllun gweithredu i fonitro ein cynnydd. Penodwyd ein Cyfarwyddwr Pobl a Datblygu Sefydliadol a Gwasanaethau Cyflogaeth yn Hyrwyddwr Cyflogaeth Foesegol.

Mae Tryloywder mewn Cadwyni Cyflenwi (TiSC) yn gronfa ddata ganolog sy'n rhoi mynediad i Ddatganiadau Caethwasiaeth Fodern a bostiwyd gan gyflenwyr. Defnyddir y Datganiadau hyn yn ystod prosesau tendro, fel rhan o Ymrwymiadau'r Cod Ymarfer Cyflogaeth Foesegol. Mae'r wefan yn galluogi PCGC i ddatgan ein gwrthwynebiad i gaethwasiaeth a pholisïau cysylltiedig yn gyhoeddus. Caiff y wefan ei noddi gan Lywodraeth Cymru ac mae'n gam tuag at ddileu caethwasiaeth fodern mewn cadwyni cyflenwi.

Mae Gwasanaethau Caffael PCGC wedi darparu hyfforddiant ar gaethwasiaeth fodern ac arferion cyflogaeth foesegol, trwy amrywiol gyfryngau hyfforddi; wedi datblygu cwestiynau safonol sy'n sicrhau bod arferion cyflogaeth foesegol yn cael eu hystyried yn rhan o'r broses gaffael; wedi ymuno â chofrestr Tryloywder mewn Cadwyni Cyflenwi (TiSC) ac wedi cyhoeddi Datganiad Cyflogaeth Foesegol PCGC; wedi gofyn i'n cyflenwyr ymuno â chofrestr TiSC a chyhoeddi eu polisïau a'u datganiadau eu hunain; ac wedi dylanwadu ar ein sefydliad lletyol, Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre, i ddiweddaru eu Polisi Codi Pryderon cyffredinol (Chwythu'r Chwiban) ac wedi datblygu cyfathrebiadau i gefnogi'r gwaith o'i hyrwyddo'n effeithiol.

# Data Pobl



# Data Pobl

Amlinellir isod ddadansoddiad o broffil ein gweithlu amrywiol, ar 31 Mawrth 2023. Lle cyfeirir at y categorïau ‘heb ei nodi’, ni nodwyd ymateb yn y maes data.

### Ffynhonnell y data: Cofnod Staff Electronig (ESR)

### Crynodeb o Nifer Staff PCGC yn eu Swydd a’r Nifer Cyfwerth ag Amser Llawn

| Cyfarwyddiaeth | PCGC | Un Cyflogwr Arweiniol (SLE) | %PCGC | % Un Cyflogwr Arweiniol (SLE) | Cyfwerth ag Amser Llawn |
|---|---|---|---|---|---|
| Is-adran Cyfrifon Taladwy | 144 | 0 | 2.62% | 0.00% | 138.64 |
| Is-adran Archwilio a Sicrwydd | 52 | 0 | 0.95% | 0.00% | 50.29 |
| Is-adran Gorfforaethol | 27 | 0 | 0.49% | 0.00% | 22.99 |
| Is-adran Atal Twyll | 5 | 0 | 0.09% | 0.00% | 5.00 |
| Is-adran Gweithlu Digidol | 24 | 0 | 0.44% | 0.00% | 23.47 |
| Is-adran Tîm Canolog e-Fusnes | 14 | 0 | 0.25% | 0.00% | 13.72 |
| Is-adran Cyflogaeth | 382 | 0 | 6.95% | 0.00% | 338.13 |
| Is-adran Cyllid | 22 | 0 | 0.40% | 0.00% | 21.61 |
| Is-adran Gwasanaethau a Letyir | 15 | 0 | 0.27% | 0.00% | 13.80 |
| Is-adran Golchdy | 129 | 0 | 2.35% | 0.00% | 119.10 |
| Is-adran Cyfreithiol a Risg | 162 | 0 | 2.95% | 0.00% | 151.77 |
| Is-adran Archwilydd Meddygol | 70 | 0 | 1.27% | 0.00% | 40.52 |
| Is-adran Pobl a Datblygu Sefydliadol | 55 | 0 | 1.00% | 0.00% | 52.47 |
| Is-adran Gwasanaethau Technegol Fferylliaeth | 5 | 0 | 0.09% | 0.00% | 5.00 |
| Is-adran Cynllunio, Perfformiad a Gwybodeg | 38 | 0 | 0.69% | 0.00% | 37.39 |
| Is-adran Gofal Sylfaenol | 296 | 0 | 5.39% | 0.00% | 276.73 |
| Is-adran Gaffael | 715 | 0 | 13.02% | 0.00% | 666.84 |
| Is-adran Un Cyflogwr Arweiniol | 0 | 3240 | 0.00% | 58.98% | 3077.65 |
| Is-adran Ystadau Arbenigol | 51 | 0 | 0.93% | 0.00% | 49.85 |
| Is-adran Profi Dyfeisiau Llawfeddygol (SMTL) | 22 | 0 | 0.40% | 0.00% | 19.92 |
| Is-adran Uned Meddyginiaethau Dros Dro | 18 | 0 | 0.33% | 0.00% | 18.00 |
| Is-adran Uned Cyflogwyr Cymru | 7 | 0 | 0.13% | 0.00% | 5.78 |
| **Cyfanswm** | **2253** | **3240** | **41.02%** | **58.98%** | **5148.66** |

## Crynodeb o Broffil Oedran PCGC

| Band Oedran | PCGC | Un Cyflogwr Arweiniol (SLE) | %PCGC | % Un Cyflogwr Arweiniol (SLE) | Cyfwerth ag Amser Llawn |
|---|---|---|---|---|---|
| <20 years | 19 | 0 | 0.35% | 0.00% | 17.87 |
| 21-25 | 131 | 511 | 2.38% | 9.30% | 638.20 |
| 26-30 | 214 | 1072 | 3.90% | 19.52% | 1246.15 |
| 31-35 | 223 | 1046 | 4.06% | 19.04% | 1181.54 |
| 36-40 | 241 | 410 | 4.39% | 7.46% | 595.68 |
| 41-45 | 259 | 132 | 4.72% | 2.40% | 360.31 |
| 46-50 | 244 | 53 | 4.44% | 0.96% | 277.24 |
| 51-55 | 359 | 13 | 6.54% | 0.24% | 347.28 |
| 56-60 | 322 | 2 | 5.86% | 0.04% | 287.01 |
| 61-65 | 178 | 1 | 3.24% | 0.02% | 154.51 |
| 66-70 | 41 | 0 | 0.75% | 0.005 | 30.11 |
| >71 years | 22 | 0 | 0.40% | 0.00% | 12.77 |
| **Cyfanswm** | **2253** | **3240** | **41.02%** | **58.98%** | **5148.66** |

## Crynodeb o Gategorïau Aseinio PCGC

| Categori Aseinio | PCGC | Un Cyflogwr Arweiniol (SLE) | %PCGC | % Un Cyflogwr Arweiniol (SLE) | Cyfwerth ag Amser Llawn |
|---|---|---|---|---|---|
| Tymor Penodol dros dro | 243 | 3240 | 4.42% | 58.98% | 3277.34 |
| Parhaol | 2010 | 0 | 36.59% | 0.00% | 1871.33 |
| **Cyfanswm** | **2253** | **3240** | **41.02%** | **58.98%** | **5148.66** |

## Crynodeb Rhywedd PCGC

| Rhywedd | PCGC | Un Cyflogwr Arweiniol (SLE) | %PCGC | % Un Cyflogwr Arweiniol (SLE) | Cyfwerth ag Amser Llawn |
|---|---|---|---|---|---|
| Benyw | 1236 | 1752 | 22.50% | 31.90% | 2737.21 |
| Gwryw | 1017 | 1488 | 18.51% | 27.09% | 2411.45 |
| **Cyfanswm** | **2253** | **3240** | **41.02%** | **58.98%** | **5148.66** |

## Categorïau Gweithwyr PCGC yn ôl Rhywedd

| Llawn Amser/ Rhan | PCGC | %PCGC | PCGC | %PCGC |
|---|---|---|---|---|
| **Gender** | **Benyw** | **Benyw** | **Gwryw** | **Gwryw** |
| Llawn amser | 898 | 16.35% | 877 | 15.97% |
| Rhan amser | 338 | 6.15% | 140 | 2.55% |
| **Cyfanswm** | **1236** | **22.50%** | **1017** | **18.51%** |

| Llawn Amser/ Rhan | Un Cyflogwr Arweiniol (SLE) | %Un Cyflogwr Arweiniol (SLE) | Un Cyflogwr Arweiniol (SLE) | %Un Cyflogwr Arweiniol (SLE) |
|---|---|---|---|---|
| **Gender** | **Benyw** | **Benyw** | **Gwryw** | **Gwryw** |
| Llawn amser | 1256 | 22.83% | 1341 | 24.41% |
| Rhan amser | 498 | 9.07% | 147 | 2.68% |
| **Cyfanswm** | **1752** | **31.90%** | **1488** | **27.09%** |

## Crynodeb o Statws Priodasol PCGC

| Statws Priodasol | PCGC | Un Cyflogwr Arweiniol (SLE) | %PCGC | %Un Cyflogwr Arweiniol (SLE) | Cyfwerth ag Amser Llawn |
|---|---|---|---|---|---|
| Mewn Partneriaeth Sifil | 45 | 7 | 0.82% | 0.13% | 48.89 |
| Wedi Ysgaru | 129 | 5 | 2.35% | 0.09% | 124.21 |
| Wedi Gwahanu'n Gyfreithiol | 12 | 3 | 0.22% | 0.05% | 14.12 |
| Yn Briod | 1119 | 486 | 20.37% | 8.85% | 1450.47 |
| Yn Sengl | 742 | 899 | 13.51% | 16.37% | 1566.26 |
| Anhysbys | 123 | 927 | 2.24% | 16.88% | 986.19 |
| Yn Weddw | 22 | 0 | 0.40% | 0.00% | 20.08 |
| Heb Nodi | 61 | 913 | 1.11% | 16.62% | 938.44 |
| **Cyfanswm** | **2253** | **3240** | **41.02%** | **58.98%** | **5148.66** |

## Crynodeb o Grwpiau Ethnig PCGC

| Grŵp Ethnig | PCGC | Un Cyflogwr Arweiniol (SLE) | %PCGC | %Un Cyflogwr Arweiniol (SLE) | Cyfwerth ag Amser Llawn |
|---|---|---|---|---|---|
| Du | 114 | 1735 | 2.08% | 31.59% | 1771.19 |
| Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig (BME) | 103 | 554 | 1.88% | 10.09% | 624.50 |
| Heb Nodi | 72 | 52 | 1.31% | 0.95% | 111.51 |
| Gwyn | 1964 | 899 | 35.75% | 16.37% | 2641.46 |
| **Cyfanswm** | **2253** | **3240** | **41.02%** | **58.98%** | **5148.66** |

## Crynodeb o Gred Grefyddol PCGC

| Cred Grefyddol | PCGC | Un Cyflogwr Arweiniol (SLE) | %PCGC | %Un Cyflogwr Arweiniol (SLE) | Cyfwerth ag Amser Llawn |
|---|---|---|---|---|---|
| Anffyddiaeth | 418 | 671 | 7.61% | 12.22% | 1036.04 |
| Bwdhaeth | 9 | 58 | 0.16% | 1.06% | 65.39 |
| Cristnogaeth | 989 | 662 | 18.00% | 12.05% | 1528.72 |
| Hindŵaeth | 15 | 110 | 0.27% | 2.00% | 119.62 |
| Nid wyf am ddatgelu fy nghrefydd/cred | 349 | 119 | 6.35% | 2.17% | 447.09 |
| Islam | 24 | 419 | 0.44% | 7.63% | 425.99 |
| Iddewiaeth | 1 | 4 | 0.02% | 0.07% | 3.50 |
| Arall | 195 | 92 | 3.55% | 1.67% | 270.91 |
| Siciaeth | 2 | 16 | 0.04% | 0.29% | 17.33 |
| Amhenodol | 251 | 1088 | 4.57% | 19.81% | 1233.07 |
| Jainiaeth | 0 | 1 | 0.00% | 0.02% | 1.00 |
| **Cyfanswm** | **2253** | **3240** | **41.02%** | **58.98%** | **5148.66** |

# Rhagolwg



# Rhagolwg

***Mae ein cynllun blwyddyn 1 ar gyfer 2023-24 wedi'i grynhoi'n 'gynllun ar dudalen'. Mae elfennau allweddol o'n cynlluniau yn cyd-fynd â'n Hamcanion Strategol a Blaenoriaethau'r Gweinidog. Bydd Blwyddyn 1 yn pennu cyflymder y newid a'r gallu i gyflawni cynlluniau blwyddyn 2 a 3 sydd i'w gweld yn ein Cynllun Tymor Canolig Integredig (IMTP).***

## Map Strategaeth PCGC

*Sicrhau Gwerth, Arloesedd a Rhagoriaeth drwy Bartneriaeth*

### Ein Gwerthoedd



***Gwrando a Dysgu***
Ystyried yn barhaus a gwella ansawdd ac effeithiolrwydd popeth a wnawn.



***Cymryd Cyfrifoldeb***
am benderfyniadau dewr a thosturiol a gwneud i'r pethau iawn ddigwydd.




***Gweithio gyda'n gilydd***
Gyda chydweithwyr, cwsmeriaid a chyflenwyr.



***Arloesi***
Bod yn ddewr a chreadigol trwy welliant parhaus.

### Ein Nodau Strategol

***Ein Pobl***
Cydweithio i fod y gorau y gallwn fod



**Canlyniadau**

- Byddwn yn creu cyfleoedd i'n staff presennol a'n staff yn y dyfodol wneud y gorau o'u potensial a meithrin ein cyflenwad o dalent.
- Byddwn yn cynyddu amrywiaeth ein gweithlu ac yn hybu'r defnydd o'r Gymraeg ym mhopeth a wnawn.
- Byddwn yn hyrwyddo lles corfforol ledled y sefydliad i gefnogi ein staff.
- Byddwn yn gwrando ar ein staff ac yn dysgu oddi wrthynt i gyd-gynhyrchu atebion arloesol gyda'n partneriaid.

***Ein Gwasanaethau***
Ysgogi arloesedd a darparu gwasanaethau o ansawdd uchel yn gyson



**Canlyniadau**

- Byddwn yn galluogi ein timau sy'n delio â chwsmeriaid i gau mwyafrif yr ymholiadau ar y cyswllt cyntaf, trwy wella cyflymder y gwasanaeth, ansawdd a phrofiad.
- Byddwn yn ysgogi arloesedd, gan osod y safon ar gyfer arfer da, a gwella ein prosesau drwy awtomeiddio.
- Byddwn yn meithrin partneriaethau ag arweinwyr diwydiant a sefydliadau academaidd ac yn ceisio statws Prifysgol.
- Byddwn yn cael ein llywio gan ddata, gan rannu gwybodaeth â'n partneriaid i ddylanwadu ar y gwaith o wneud penderfyniadau ar draws GIG Cymru.

***Ein Gwerth***
Gwneud y mwyaf o fudd, effeithlonrwydd ac effaith gymdeithasol yr hyn a wnawn i'n partneriaid



**Canlyniadau**

- Byddwn yn gwneud penderfyniadau buddsoddi beiddgar sy'n ysgogi trawsnewid ac yn ychwanegu gwerth.
- Byddwn yn arwain y ffordd ac yn mynnu'r newidiadau sydd eu hangen gan eraill i ymdrin â'r argyfwng newid hinsawdd a chyflawni targedau datgarboneiddio.
- Byddwn yn defnyddio ein hadnoddau'n effeithlon ac yn cael effaith gadarnhaol ar sail gymdeithasol a chynaliadwy.
- Byddwn yn arwain cyfleoedd i gynyddu buddsoddiad yn yr economi sylfaenol ledled Cymru fel cyfran gynyddol o'n cadwyn gyflenwi.

## 2023 - 24: Targedau Allweddol i'w Cyflawni



**_Ein Pobl_**
Gweithio gyda'n gilydd i fod y gorau y gallwn fod

- Datblygu ein harlwy Iechyd a Lles i staff trwy gydweithio.
- Gwella profiadau hyfforddeion meddygol, deintyddol a fferylliaeth o fewn Un Cyflogwr Arweiniol.
- Diogelu ein Gwasanaeth Golchdy Cymru Gyfan at y dyfodol trwy gynllunio olyniaeth, gan gynnwys prentisiaethau.
- Gwreiddio cydraddoldeb ac amrywiaeth yn niwylliant a meddylfryd ein gweithle.
- Bod yn gyflogwr o ddewis trwy 'Dyma ein rhaglen PCGC: Ein Pobl'.
- Datblygu gallu ein gweithlu i ddiwallu anghenion newidiol y sefydliad a GIG Cymru.
- Cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg yn ein hamgylcheddau gwaith a meithrin hyder i ddefnyddio a dysgu'r Iaith.



**_Ein Gwasanaethau_**
Ysgogi cyflymder arloesi adarparu gwasanaethau o ansawdd uchel yn gyson

- Arwain ar ddatblygu a gweithredu'rCofnod Staff Electronig (ESR)Rhaglen Trawsnewid.
- Gwella gweithrediadau a seilwaith Cadwyni Cyflenwi, Logisteg a Thrafnidiaeth er mwyn lleihauallyriadau carbon.
- Creu dull cyson o Reoli Diogelwch Tân ar draws GIG Cymru.
- Cefnogi'r gwaith o sefydlu Corff Llais y Dinesydd ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol Cymru - Llais.
- Arwain ar Raglen Recriwtio Nyrsys Rhyngwladol Cymru Gyfan tra'n datblygu model symlach.
- Cefnogi'r cynnig i gyflwyno'r contract Offthalmig cenedlaethol ar gyfer Cymru.
- Ysgogi gweithrediad y rhaglen e-ragnodi gyda'n partneriaid Iechyd a Gofal Digidol Cymru (DHCW).



**_Ein Gwerth_**
Cynyddu i'r eithaf fudd, effeithlonrwydd, ac effaith gymdeithasol yr hyn y wnawn ar gyfer ein partneriaid

- Cefnogi sefydliadau'r GIG i gyflawni eu Cynlluniau Gweithredu Datgarboneiddio.
- Ehangu'r ystod o gyffuriau a gynigir drwy ein Gwasanaethau Technegol Fferylliaeth i leihau costau prynu a dosbarthu ar gyfer Byrddau Iechyd.
- Cyflawni cynllun gwaith yr Economi Sylfaenol a gytunwyd ar gyfer GIG Cymru.
- Arwain y gwaith o weithredu'r Ddyletswydd Gonestrwydd ar draws sefydliadau'r GIG yng Nghymru.
- Gwella profiad ymgeiswyr trwy wasanaethrecriwtio wedi'i foderneiddio.
- Gweithredu ein Cynllun Digidol i alluogi gweithle digidol ac ysgogi arloesi.
- Diddymu'r defnydd o blastig untro o'r broses golchi dillad.
- Arwain y rhaglen Trawsnewid Mynediad at Feddyginiaethau (TRAMs) i ad-drefnu Gwasanaethau Technegol fferylliaeth ar draws Cymru yn un cydwasanaeth.

Diolch am ddarllen ein Hadolygiad Blynyddol. Os hoffech chi wybod mwy, ewch i'n gwefan, ein sianeli cyfryngau cymdeithasol, neu defnyddiwch y manylion cyswllt a nodir isod:


01443 848585

shared.services@wales.nhs.uk

www.nwssp.wales.nhs.uk

@nwssp

Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru

NHS Wales Shared Services Partnership,
4-5 Charnwood Court,
Hoel Billingsley,
Parc Nantgarw,
Cardiff,
CF15 7QZ



*Dyluniwyd y ddogfen hon gan Dîm Cyfathrebu PCGC.*
*nwssp.communications@wales.nhs.uk*